Cyfres yr 20fed Ganrif.

R. I. DDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 7. Rhif 3.] MAWRTH, 1907. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Charles Darwin.
Emyn Robert Ap Gwilym Ddu.
Mr. D. R. Davies, Cwrtnewydd.
Iesu a Beirniadaeth Ddiweddar.
Parch. J. Islan Jones, B.A., Accrington.
Gwinllan y Bardd.
Dewi Hefin.
Y Ddirprwyaeth Eglwysig Gymreig.
Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

W. JAMES, B.A., J.P., a T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.
Barddoniaeth—SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2/6 y flwyddyn. Danfonir 6 copi a ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

Parch. E.E.J., Egerton; E.D., Aberdar; R.D.D., Mardy; J.E., Aberdar; J.L., Minera; J.D., Croesgoch.

D.S.—Achwynir gan rai dosparthwyr nad yw y derbynwyr yn brydlon gyda'u taliadau. Da chwi, ddarllenwyr, rhoddwch bob help i wneud gwaith y dosbarthwyr yn bleser ac nid yn boen.—Gol.

o———o

ROBIN THE NEW STARCH
Reckitt's Blue.
ZEBRA GRATE POLISH.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1907. [CYF. VII. RHIF 3.

NODION Y MIS.

'DOES dim para byth i gyffro y Dduwinyddiaeth Newydd mwy nag i ryw newyddbeth arall dan haul. Mae Mr. Campbell wedi gadael y *storm centre*, sef y City Temple, am ychydig wythnosau, ac wedi encilio i Cornwall i dreulio ei wyliau gauaf fel mae'n arfer gwneud. Dichon fod hyn a'r disgwyliad am ei lyfr ar y "Dduwinyddiaeth Newydd" sydd mewn addewid i ymddangos tua'r Pasg, i raddau wedi lleddfu'r cyffro; a disgwyliwn mewn amynedd am y gwaith a esyd syniadau Mr. Campbell yn deg ac yn derfynol o flaen y cyhoedd. Soniasom am ddisgwyl "mewn amynedd." Ofnwn nas gallwn ddweyd "mewn ffydd." Caniatawn gyda'r parodrwydd mwyaf fod Mr. Campbell yn brif bregethwr ei oes ac yn un o'r cymeriadau dysgleiriaf fedd y pwlpud Cristionogol heddyw; fel *force* dros Dduw a daioni mewn canolfan mor bwysig â Llundain, nis gallwn enwi ei gydradd; ond mae'r arwyddion yn rhy amlwg nad yw yn feddyliwr clir a thrwyadl ar y pynciau anhawdd y cymer atynt i'w trin yn ei bregethau. Barnwn nad yw hi ddim yn bosibl i wneud duwinyddiaeth oleu a chyson allan o osodiadau o'r fath hyn. Er engraifft, cafwyd ganddo i anerch cyfarfod pwy ddydd yn Bodmin. Mewn atebiad i gwestiwn, dywedodd—"Nis gallwn fyned tuhwnt i'r Iesu am bob tragwyddoldeb. Pan y meddyliaf am Dduw byddaf yn meddwl am dano yn ei berthynas a'r Iesu. Ar Iesu yr wyf bob amser yn gweddio. Efe sydd yn llanw y lle canolog. Efe sydd ar yr orsedd." Mewn atebiad i gwestiwn arall dywedai fod yr eglwys wedi arfer meddwl am Grist fel yr ail berson yn y Drindod. Credai yntau hyn hefyd, er cymaint o syndod a fyddai hyny i'w gyfeillion rhyddfrydig. Ond ni chredai yn yr Iesu mewn unrhyw ffordd a'i *gwahanai oddiwrth ddynoliaeth fel cyfangorff*. Gwel y *Christian World*, Chwef. 21. Gosodai Mr. Campbell yn Bodmin bwyslais ar y ffaith nad oedd y "Dduwinyddiaeth Newydd" yn Undodaidd. Nid

oedd raid iddo. Mae ryw fath o eglurder a rhai elfenau rhesymegol beth bynag mewn Undodiaeth na fedd y "Dduwinyddiaeth Newydd" eto. Fe gyhoeddir llyfr newydd Mr. Campbell yn mhen ychydig wythnosau; bydd yna ruthr cyffredinol i'w brynu a'i ddarllen, oblegid efe ydyw *sensation* y dydd; ond o braidd y gallwn ni ddisgwyl y bydd y llyfr yn cynhwys "gweledigaeth eglur" wedi'r cwbl.

Un o'r pethau a ddaeth allan mewn eisteddiad o'r "Ddirprwyaeth Eglwysig Gymreig" a berodd syndod neillduol oedd cyfansoddiad *staff* yr athrawon yn Ngholeg Manchester yn Rhydychen. Gwnaed cyfeiriad hefyd at yr un peth mewn cysylltiad â Choleg Caerfyrddin. Rhydd presenoldeb un o'r *staff* fel Dirprwywr arbenigrwydd ar y mater yn ei gysylltiad â Choleg Manchester. Daeth y cwestiwn i sylw gyda chyfeiriad at y Parch. W. E. Addis, M.A., yr hwn sydd yn athraw yn adran yr Hen Destament, ac yntau yn offeiriad yn yr Eglwys Sefydledig. Mae Mr. Addis yn feistr yn ei ganghen, yn ysgolor gonest a thrwyadl, ac mae'r pwyllgor yn foddlon ar hyny. Ac nid dyma'r unig engraifft. Mae gwasanaeth y Proff. Henry Jones o Glasgow, ac un o'r Dirprwywyr, wedi ei sicrhau am rai blynyddau fel athraw yn nghangen Athroniaeth. Dywedodd Mr. O. M. Edwards rai misoedd yn ol, wrth gyfeirio at yr appwyntiad, mai pregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd oedd Dr. Henry Jones. Athraw arall yn y Coleg—athraw mewn Hanes Eglwysig—yw y Proff. Vernon Bartlett o Goleg Mansfield—y drws nesa', fel y dywedir; a pheth arall eto, y *Tate Lecturer* am eleni i dysgu'r bechgyn i bregethu, yw un o bregethwyr goreu yr Annibynwyr yn y wlad,—y Dr. John Hunter o Glasgow. Heblaw bod yn athraw, pregetha hefyd yn nghapel y Coleg o Sul i Sul yn ystod ei arosiad yn Rhydychen.

Yn yr un cyfeiriad oedd y cwestiwn yn nghylch yr *Hibbert Journal*. Nid oedd un o'r Dirprwywyr wedi clywed son erioed am dano a cheisiai wybod y ffordd i spelio *Hibbert*, ond cyn diwedd y drafodaeth daeth y Dirprwyaeth i gyd i wybod mai Undodiaid oedd yn ei gynal, mai dau weinidog Undodaidd oedd y golygwyr, a bod pawb o bob enwad a thu allan i bob enwad yn ysgrifenu iddo—dynion megis Esgobion Ripon a Southwell, Syr Oliver Lodge, Proffeswr Henry Jones, &c., a gobeithir fod y cwbl yn *object lesson* gyda golwg ar yr hyn ydyw *genius* neu anian y cyfundeb bychan dirmygedig, a elwir yr Undodiaid—*always young for liberty*, fel y dywedai Dr. Channing am dano ei hun. Carem wybod am un Coleg duwinyddol arall trwy'r wlad heblaw Caerfyrddin a Manchester lle y dangosir y fath yspryd rhyddfrydig yn nhrefniad y *staff*; ac nid yn unig gyda golwg ar y *staff* y mae yna ddrws agored, ond derbyniad calonog hefyd i

fyfyrwyr o bob enwad heb eithrio'r Eglwys Sefydledig. Oni fu amser pan oedd ymgeiswyr am ordeiniad Esgobion yn cael ei haddysg yn Ngholeg Caerfyrddin? Cofia'n darllenwyr o bosibl am yr *ideal* fawr o Goleg i'r holl enwadau yn Aberystwyth a ddesgrifwyd gan y gwr ieuanc llygadgraff hwnw, Mr. D. Davies, A.S., Llandinam. Ychydig o sylw gafodd ei freuddwyd, ond pe byddai yn edrych oddiamgylch iddo cawsai weled ei fod wedi ei sylweddoli mewn ffordd yn barod.

Yr ydym o'r diwedd wedi cael rhyw fath o benderfyniad swyddogol yn y *Western Mail* gyda golwg ar gysylltiadau (*affiliations*) enwadol aelodau y Ddirprwyaeth Eglwysig Gymreig. Dangosir llawer o ddyddordeb mewn peth felly yn neillduol mewn gwlad yr holir mor aml ynddi, "A ydych ch'i gyda chrefydd; i ba enwad y perthynwch?" Deallwn oddiwrth y *Western Mail* fod pedwar yn Eglwyswyr—y Cadeirydd, yr Hybarch Archddiacon Evans, Arglwydd Hugh Cecil, Mr. Frank Edwards, A.S. dros Sir Faesyfed. Tri yn Anibynwyr—Syr John Williams, Dr. Fairbairn, Mr. S. T. Evans, A.S., K.C., a dau yn Undodiaid—Mr. Greaves (*Lord Lieutenant* Sir Gaernarfon) a'r Proffeswr Henry Jones. Gadawn i'r *Western Mail* a Mr. O. M. Edwards i benderfynu y gwahaniaeth gyda golwg ar yr olaf. Tybiwn fod y cyfrif am y gweddill yn weddol gywir. Yr unig amheuaeth o bosibl sydd mewn cysylltiad a Syr John Williams. Dywedir ei fod yn awr yn mynychu yr Eglwys o dro i dro; ond os ydyw, sicr ydym ei fod yn un o grefyddwyr mwyaf eangfrydig ei oes.

Rhaid addef i Undodiaeth gael *advertisement* go dda mewn cysylltiad a dau eisteddiad o'r Ddirprwyaeth. O bosibl na fyddai llawer yn meddwl fod gormod o *fuss* wedi ei wneud o enwad mor fychan. Teimlwn felly ein hunain. Holwyd tri o honom, tra yr oedd un yn eithaf digon. Digwyddai i un o Olygwyr Yr Ymofynydd fod o ddamwain yn y llys, a gorfodwyd ef i roddi ei dystiolaeth heb amser o gwbl i ystyried a pharotoi. Galwyd y llall am nad oedd gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, gysylltiad swyddogol fel Ysgrifenydd â'r enwad, er ei fod wedi bod mwy na deugain mlynedd yn y weinidogaeth ac yn hollol gartrefol—yn fwy felly nag un arall ellid enwi, yn hanes ein heglwysi a'u sefyllfa trwy yr holl gyfnod a nodwyd. Drwg iawn genym na chafodd Mr. Jones ddim o'r croesaw hwnw oddiwrth y Cadeirydd a ddylai fod wedi ei gael, a'i fod wedi ymadael a'r Ddirprwyaeth gyda'r teimlad nad oedd wedi cael profiad o'r cyfiawnder, y tegwch a'r boneddigeiddrwydd oeddynt yn ddyledus iddo fel tyst. Teimlem yn y Deheudir mai Mr. Jones oedd y cymhwysaf o neb i anfon i fyny fel cynrychiolydd o flaen y ddirprwyaeth. Nid oedd genym ystadegau swyddogol i'w gosod gerbron. Nid yw'r cyfundeb erioed wedi cymeryd y drafferth fel yr enwadau

eraill i'w darparu. Y cwestiwn oedd, cael y dyn cymhwysaf o ran gwybodaeth a phrofiad—y dyn mwyaf *representative*—y dyn ag y cariai ei enw gydag ef y dysg, y profiad a'r dylanwad helaethaf yn mhlith ei gyd-genedl.

Cwestiwn ag y tybiai y dyn cyffredin—*the man in the street*—fyddai yn cael sylw neillduol, yw hwn, Beth mae hanes yn ddweyd yw y berthynas sydd wedi bodoli rhwng yr Eglwys Sefydledig a'r Ymneillduwyr yn Nghymru yn ystod y tri chan' mlynedd sydd wedi pasio? Mae yma deimlad chwerw trwy'r wlad yn gyffredinol yn erbyn anghyfiawnder a gormes yr Eglwys fel sefydliad gwladol. Mae pob cynrychiolaeth yn Nghymru yn ddieithriad wedi anfon aelodau i'r Senedd newydd ydynt yn bleidwyr cydwybodol Datgysylltiad a Dadwaddoliad yr Eglwys. Paham y mae hi, fod bodolaeth yr Eglwys fel Eglwys y wladwriaeth yn *grievance* beichus ar galon a chydwybod pob Ymneillduwr? Onid hanes sydd i ddweyd, hanes brwydrau, erledigaethau, dioddefiadau y gorphenol, o amser John Penry pan oedd Bess yn teyrnasu, i lawr hyd at y troad allan o Lwynrhydowen yn 1876, ac yn nes hyd yn nod na hyny, at ein hamser ni. A phwy mwy cymhwys na Mr. Jones i ddweyd yr hanes? Barn Mr. Owen M. Edwards am dano yw, mai efe ydyw'r awdurdod uwchaf ar hanes Ymneillduaeth yn Nghymru. Ond ni oddefodd Cadeirydd y Ddirprwyaeth iddo i ddweyd y stori. Fel mae'n rhyfedd meddwl, y *ruling* oedd nad oedd "hanes" ddim yn dyfod tu fewn i'r *terms of reference*. Cafodd Mr. Jones yn ei ymdrechion i ddodi ambell air i fewn, *support* calonog Mr. S. T. Evans, A.S., K.C., ac mewn gwirionedd bu ei ymddangosiad ef o flaen y ddirprwyaeth yn achlysur i ddwyn pethau i *grisis*. Nis gallwn ond dychymygu beth gymerodd le tufewn i'r *scenes*. Y peth sydd yn sicr yw, fod yr awyrgylch wedi cyfnewid yn ddirfawr, ac mae cysgod o obaith erbyn hyn y daw rhywbeth defnyddiol wedi'r cwbl allan o'r ymchwiliad cyn i'r flwyddyn hon i basio heibio.

O'r hyn leiaf dyna'r peth a ddywed y newyddiaduron. Yr ydym ni yn hollol amheus ar y mater. Cawsom brofiad o ryw dair awr o flaen y Ddirprwyaeth, a'r argraff adawyd arnom ni oedd mai Ymneillduaeth oedd ar brawf ac nid Eglwys Lloegr. Cwestiwn ofynwyd i ni oedd hwn, ac nid ydym yn gweled ei fod yn cwrdd a'r mater o gwbl—"Beth yw y berthynas rhyngoch chwi ag enwadau eraill? A ydych yn newid pwlpudau, &c.? Pa un ydyw'r enwad anghydffurfiol a ddengys fwyaf o gydymdeimlad tuag atoch?" Yn mha le mae cwestiwn gormes ac anghyfiawnder yr Eglwys Sefydledig yn dyfod i fewn gydag ymchwiliadau o'r fath yna? Ni roddwyd un cwestiwn i ni gyda golwg ar yr Eglwys Sefydledig yn Llandyssul a'r parthau amgylchynol—dim o'r un cwestiwn gyda golwg ar nerth

cymhariaethol yr Eglwys a'r cyfundebau Anghydffurfiol yn nhiriogaeth "yr ysmotyn du" er engraifft. Yr ydym yn gyfarwydd a'r parth hwn, a syniad gweddol gywir genym sut mae pethau yn sefyll. Disgwyliem *chance* o'r dechreu i'r diwedd i ddwyn y gosodiad hwn i fewn fel un a chryn awdurdod drosto, un ag mae genym ffydd benderfynol yn ei gywirdeb. Dyma'r gosodiad a bydd yn hawdd i bob darllenydd i weled fod arwyddocâd neillduol yn perthyn iddo. Yn mhlwyfi yr "ysmotyn du" a'u cymeryd gyda'u gilydd, sef plwyfi Llandyssul, Llandyssilio, Llanwenog, Llanwnen, Llanbedr, Cellan, Llanfihangel Ystrad, a Chiliau Aeron, yr ydym yn barod i addef mai yr Annibynwyr yw yr enwad cryfaf, ond yr Undodiaid sydd nesaf, ac yn fwy na *match* i'r Eglwys Sefydledig gyda'i holl fanteision fel eglwys wladol, lleoliad Coleg Llanbedr yn nghanol yr ysmotyn, a phresenoldeb Esgob Abertawe i osod ei fendith ar y cwbl.

CEWRI CYNYDD Y CENHEDLOEDD.

VI.—Charles Darwin.

Cynllun gwirdda ydyw cydnabyddu darllenwyr Yr Ymofynydd, yn achlysurol, ag elfenau blaenfynediad a chynydd gwybodaeth wyddonol. Eto rhaid cydnabod mai nid gwaith hawdd ydyw ysgrifenu erthygl ddyddorol a darllenadwy i'r lluaws ar arwr tebyg i'r gwir enwog Charles Darwin. Ni fwriadwn ond rhoddi'r braslun mwyaf anghyflawn o fywyd Charles Darwin yn anibynol ar ei waith gwyddonol. Gwaith ei oes a'i wasanaeth i'r byd oedd ei efrydiaeth o ddadblygiad rhywogaethau mewn anifeiliaid a phlanigion, ac i hyn o bwnc rhaid cyfyngu corph yr erthygl. Ganwyd Charles Darwin ar y deuddegfed o Chwefror, 1809, yn yr Amwythig. Ei fam oedd ferch i Josiah Wedgwood, sefydlydd gwaith mawr llestri pridd yn Etruria. Meddyg yn yr Amwythig oedd ei dad, Robert Waring Darwin. Yr oedd y tad yn ddyn pwysig yn ei gylch, yn nodedig am anibyniaeth ei gymeriad, ac fel sylwedydd manwl a chanddo allu anghyffredin i ddarllen cymeriad ei gleifion ac i enill eu hymddiried. Felly ganwyd Charles Darwin i amgylchiadau cysurus. Ni ymddangosai un arwydd yn y bachgenyn y byddai iddo wneuthur dim y tu allan i'r cyffredin heb son am y tebygolrwydd y gwnai wyrdroi syniadau'r byd gwyddonol, ac o ganlyniad newid yn llwyr ddaliadau duwinyddol y byd. Anffafriol iawn hefyd oedd proffwydoliaethau'i athrawon. O 1818 hyd 1825 mynychai'r bachgen Ysgol Ramadegol yr Amwythig, a arolygid gan yr enwog Dr. Butler. Ymadawodd a'r ysgol hon pan yn un-ar-bymtheg oed, a dywed ef ei hun na allai dim fod yn llai o fudd

iddo nag ysgol Dr. Butler, am mai efryda'r ieithoedd clasurol a wnaed yno i gyd bron, a theimlai na allai hyny fod o gynhorthwy mawr i'w feddwl gwyddonol. Dyma ei eiriau —"*The school as a means of education to me was simply a blank.*"

Teimlai ddyddordeb mawr mewn Fferylliaeth, a hoffai'n fawr wneuthur *experiments* gyda'i frawd yn y siop waith gartref. Daeth hyn i glustiau'i gydysgolheigion, ac enillodd iddo ei hun y llysenw "*Gas*," a gwers gyhoeddus oddiwrth ei feistr "am wastraffu ei amser wrth efrydiaethau mor ddiwerth." Gan na wnai fawr ddaioni yn yr ysgol aeth i Edinburgh yn 1825, gyda'r bwriad o gymhwyso'i hun i fod yn feddyg. Ni fu fawr welliant yno ychwaith. Dywed fod y darlithiau ar *Materia Medica* yn "ofnadwy i'w cofio," hyd yn oed ddeugain mlynedd yn ddiweddarach. Er hyny ymgydnabyddodd a rhai anianyddwyr (*naturalists*) ymarferol da, a chafodd wersi mewn stwffio adar, a daeth yn saethwr da. Yn mhen dwy flynedd, a'i dad yn teimlo nad oedd ynddo chwaeth at fywyd y meddyg, ac yn ofni'r ai'n *sporting man* ofer, awgrymwyd iddo fyned i Brifysgol Seisnig i ymbarotoi ar gyfer gweinidogaeth yr Eglwys Sefydledig. Aeth i Gaergrawnt, ond ni ddygodd newid Prifysgol fawr elw iddo, a dywed ef ei hun fod y tair blynedd a dreuliodd yn Nghaergrawnt yn llawn mor ddiffrwyth, mor bell oedd a fyno a'i efrydiaethau colegol, a'r amser a dreuliodd yn Edinburgh a'r ysgol. Ymddengys, er hyny, mai nid arno ef ei hun yr oedd y bai i gyd, a dywed fod *Algebra* ac *Euclid* yn ffynhonell llawer o bleser iddo. Treuliai lawer o'i amser i gasglu pryfed a thrychfilod, a dywed ef ei hun ei fod yn "*mad on beetles.*" Da fu hyn iddo; dygodd y duedd hon ef i gysylltiad a Henslow, Athro mewn Llysieueg, dyn enwog, ac o gyrhaeddiadau helaeth—"*A man of winning and courteous manners; free from every tinge of vanity or other petty feeling*," medd ein gwrthrych am dano. Darbwyllodd Henslow ef i ddyddori ei hun mewn Daeareg, a chafodd ganiatad i'r gwr ieuanc fyned gyda'r Athro Sedgwick ar daith ddaearegol drwy Gymru. Drwy'r daith hon cafodd brofiad ymarferol, a gwybodaeth a fu'n fuan wedi hyn o'r gwerth mwyaf iddo. Yn 1831, daeth *turning point* mawr ei oes. Yn y flwyddyn hono yr oedd y llong "*Beagle*" i gychwyn ar ei thaith naturiaethol fythgofiadwy. Capten y "*Beagle*" oedd ddyn o'r enw Fitzroy, ac o dan ei ofal ef yr oedd y llong, yn ol gosodiad y Llywodraeth i fyned i orphen *survey* Patagonia, Tierra del Fuego, ac i fapio allan draethau Chili a Pheru, yn neheuharth yr Amerig, ac i ymweled a'r Pacific Archipelagoes, &c. Taith wyddonol arbenigol oedd hon. Drwy ddylanwad Henslow, cafodd Darwin y fraint a'r anrhydedd o fyned gyda Fitzroy ar y daith i gasglu *specimens* o anifeiliaid a phlanigion. Gwrthdystiai ei dad yn gryf yn erbyn ei fyned; ond dywedodd wrth ei fab, os cai unrhyw ddyn o synwyr cyffredin cryf a'i cynghorai i fyned y byddai iddo ganiatau. Anogai ei ewythr, Josiah Wedgwood, ef yn gryf i fyned, ac felly cafodd gydsyniad ei dad. Er hyny i gyd bu bron a chael ei wrthod, gan yr amheuai Fitzroy y gallai dyn a chynllun trwyn Darwin ganddo feddu digon o yni a phenderfyniad ar gyfer y daith.

Am y daith dywed y gwyddonwr ei hun mai yma y dysgodd arferion ymdrechgar am enill gwybodaeth, ac i ganolbwyntio'i feddwl ar waith. Casglodd *specimens* yn helaeth, a dyma fu sail ei waith mawr diweddarach. Ar y daith hon y tarawyd Darwin a'r berthynas a ffynai rhwng creaduriaid a phlanigion byw, a'r rhai a nodweddai'r ddaear flynyddoedd hirfaith yn flaenorol, y rhai a eilw'r Sais yn *extinct forms of life*: ond at hyn eto. Dychwelodd y "*Beagle*" a'i llwyth yn 1836. Nodweddwyd y blynyddoedd rhwng 1836 a 1842 a chynydd graddol yn gystal a gwendid iechyd;

ac ar ddiwedd yr amser hwn gorfu arno ymadael a'r Brifddinas, ac i dreulio gweddill ei oes yn nhawelwch y wlad. Torodd y llesgedd hwn ei galon, a bygythiai barhau. Yn 1839, priododdd a'i gyfnither, Emma Wedgwood. Oddiar ei ddychweliad gyda'r "*Beagle*" llafurio'n ddifefl y bu ar waith ei fywyd ; ac fel llawer un enwog arall, yn y tawelwch hwn y llwyddodd i gyflawni y rhan helaethaf o'i waith. Yno y dygodd ffrwyth ei sylwadaeth i oleu dydd.

Yn 1859, cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, a'i gampwaith, "*The Origin of Species*" (Tarddiad Rhywogaethau). Ysgrifenodd lawer iawn o lyfrau ereill ac erthyglau ar Lysieueg a gwahanol efrydiaethau o natur, ond ni chaniata gofod fanylu yma. Fel y crybwyllwyd eisoes nid oedd ei iechyd yn rhyw gryf iawn flynyddoedd olaf ei oes, ond tua dechreu y flwyddyn 1882 bu tro er gwaeth, ac yn mis Ebrill y flwyddyn hono ehedodd ei ysbryd at Dduw. Claddwyd ef gyda'r mawrion yn Westminster Abbey, yn ol y teimlad cyffredinol a ffynai na ddylai mawredd fel hwn gael ei gladdu mewn dinodedd. Nid oedd hon ond cydnabyddiaeth fechan o'i chymharu a'r deyrnged delir iddo gan feddyliau mwyaf y byd gwyddonol hyd heddyw. Mae ei waith i barhau byth. I roddi i ddarllenwyr Yr Ymofynydd ryw amgyffred am natur ei waith, dylid, mewn gwirionedd, roddi braslun o agwedd meddwl y byd cyn amser Darwin ar y pynciau hyny y cysegrodd ein gwrthrych ei holl fywyd a'i holl allu i'w hastudio. Yn fore yn hanes dyn daeth gofyn am ddosparthu anifeiliaid a rhoddi enwau ar y gwahanol ddosparthau—i wahaniaethu, er engraifft, rhwng rhai buddiol at fwyd, dillad, ac arfau oddiwrth y rhai di-ddefnydd a pheryglus. Dull bore o'u dosparthu oedd yr ystyriaeth o'u cyflyrau a'u trigfanau. Rhanodd Solomon hwy fel y canlyn, i fwystfilod, adar, ymlusgiaid, a physgod. Ni wellwyd fawr ar y rhaniad hwn hyd amser Aristotle (384—322 ? C.C.) Prin digon nerthol ydyw'r gair "aruthrol" i ddesgrifio gallu meddyliol y gwr mawr hwn. Darganfyddodd lawer o bethau na ddeallid yn ei amser ef, a chymerodd 2000 o flynyddoedd i'r byd i'w hail ddarganfod. Ar ol amser Aristotle bu yna gagendor mawr mewn hanes. Yr oedd ffeithiau'n lluosogi, ond nid oeddent wedi eu dwyn o dan unrhyw gyfundrefn. Ni wyddid dim am hanes bywyd ar y ddaear, ac ni ddychmygwyd fod yna unrhyw hanes o'r fath. Cymhlethid ffeithiau gwasgaredig ag ofergoeliaeth, a chysylltid y ffeithiau a dewiniaeth yn hytrach nag a gwyddor. Yn ystod y blynyddoedd 1707—1778, bu fyw un o'r enw Linnaeus, sylfaenydd hanes anianyddol gwyddonol (*Scientific Natural History*) diweddar. Yr oedd Linneaus wedi'i eni i dylodi. Trefnid iddo fod yn bregethwr, ond fel Darwin, ni chynyddodd fawr yn yr ysgol, a bwriadwyd wneuthur crydd o hono. Ond nid yn nghyfeiriad y grefft barchus hono y gorweddai ei duedd, yn fwy nag eiddo Gwilym Marles a'r Athro Henry Jones. Anianydd o'i fodd oedd Linneaus. Gweithiodd ei hun o'r diwedd i fod yn feddyg, a daeth yn drech na'i amgylchiadau bore. Casglai lawer o wybodaeth a *specimens* o natur o bob cwr o'r byd. Hwn oedd y gwyddonwr cyntaf i roddi i lawr sail cynllun y dosparthiad presenol o anifeiliaid a phlanigion a hyny yn ei *Systema naturae*. Nodwedd fawr Linneaus oedd ei drefn, a'i drefniad rheolaidd o'i ffeithiau. Sylfaenodd gynllun newydd o enwi pethau mewn dull eglur, manwl, a phendant.

Er mwyn defnyddioldeb mwy cyffredinol rhoddodd enwau Lladinaidd ar bethau. Darnodai ei enwau a chychwynodd y dull deuenwol o nodi gwrthrychau. Er engraifft galwai pob rhosyn wrth yr enw *Rosa;* rhosyn gwyllt a ddesgrifiai fel hyn, *Rosa sylvestris vulgaris, flore odorata incarnato*, hyny yw, 'Rhosyn cyffredin y goedwig, a'i flodeuyn o liw cnawd ac o arogl per.' Tipyn yn glogyrnaidd oedd ei gyfundrefn ond yn welliant mawr ar ddim blaenorol. Fel y

mae yn gyfleus i ni heddyw roddi dau enw ar John a'i alw yn John Jones i'w wahaniaethu oddiwrth John Davies, felly y teimlai Linnaeus hi'n fantais i roddi dau enw ar anifeiliaid a phlanigion, sef enwau'r tylwyth a'r rhywogaeth. Galluogodd hyn ysgolheigion i allu penderfynu nifer gwahanol fathau o anifeiliaid a phlanigion, ac i ddesgrifio eu nodweddion. Dygodd y manylrwydd hwn bobl wyneb yn wyneb a'r *broblem*, Beth ydyw rhywogaeth, neu *species*, fel y myn y Sais? Beth feddylir wrth rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion? Cymerwn engreifftiau o'r hyn feddyliai Linnaeus wrth rywogaeth neu *species*. Ystyriai Linnaeus fod y *jackdaw*, y gigfran, y fran bigwen (*rook*), a'r fran (*crow*) yn perthyn i'r un tylwyth, h.y., mai gwahanol rywogaethau neu *species* o'r un tylwyth *Corvus* ydynt. Gwahaniaethai rhwng y *jackdaw* a'r gigfran trwy alw y naill yn *Corvus monedula* a'r llall yn *Corvus corax*. Syniad Linnaeus oedd hwn, fod pob rhywogaeth—dyweder eiddo'r *jackdaw*—yn hollol sefydlog a digyfnewid. Credai fod pob rhywogaeth wedi bod yn annibynol o'r dechreu ac fod yna ddau greadur—gwryw a benyw—o bob rhywogaeth wedi eu creu ar y cychwyn. Ond y mae yna wrthwynebiadau amlwg i hyn, ond nis gellir eu nhodi yma. Yn cydoesi a Linnaeus oedd un o'r enw Buffon. Credai hwn ar y dechreu fod pob *species* yn sefydlog ac yn anghyfnewidiol, h.y., fod yn rhaid i ddisgynyddion pob rhywogaeth ddwyn yr un nodweddion o genhedlaeth i genhedlaeth. Ond wedi hyny awgrymodd y posiblrwydd fod rhyw gymaint o wahaniaeth yn bosibl. A daeth i led gredu y gallai un rhywogaeth yn mhen amser o dan weithrediad achosion naturiol gynhyrchu'n raddol rywogaethau eraill. Dyma'r awgrym cyntaf a wnaed i gyfeiriad Dadblygiad. Cefnogodd Goethe'r awgrym, ac yn haner gyntaf y ganrif ddiweddaf gogwyddai Lamarck, St. Hilaire, Herbert Spencer ac eraill i'r un cyfeiriad; a dyma'r egwyddor y daeth Darwin i'w sefydlu a'i gosod unwaith am byth tu hwnt i bob amheuaeth. Yn herwydd un diffyg pwysig methodd y syniad ag enill derbyniad cyffredinol. Gwyddom drwy gloddio i berfeddion daear a sylwi ar ffurfiau creaduriaid a phlanigion a welir yn gladdedig yno fod cynddeiliaid y ddaear yn dra gwahanol i'r creaduriaid a'r planhigion a welir heddyw, ac fod yr athrawiaeth o "Ddadblygiad" yn golygu cyfnewidiadau. Ni fedrai neb roddi ei fys ar yr achosion a allai ddwyn y cyfnewidiadau hyn oddiamgylch. Dyma'r gwrthwynebiad a ddygwyd yn mlaen gyda nerth di-drugaredd gan yr enwog a'r galluog Cuvier, tua dechreu y bedwareddganrif-ar-bymtheg. Dyma'r ergyd fu'n farwolaeth i'r syniad yn 1830. Distawyd cefnogwyr dadblygiad, ond ni argyhoeddwyd hwynt. Ond cyn y gallai y ddamcaniaeth o ddadblygiad godi i phen byth mwy yr oedd yn rhaid wrth ymresymiadau newydd. A oedd posibl olrhain yr achosion o'r gwahaniaethau rhwng hen ffurfiau o fywyd a rhai mwy diweddar? Os oedd, sut? Pa beth a ellid wybod am y rhesymau a allai egluro'r cyfnewidiadau a newidiodd gymaint ar ffurfiau bywyd oddiar gyfnodau daearegol blaenorol.

Daeth yr ateb yn rhanol cyn pen saith mis ar ol goruchafiaeth ymddangosiadol Cuvier. Y gwir ni ellir ei guddio. Gydag "Egwyddorion Daeareg," Lyell, daeth goleuni newydd: awgrymwyd llwybr ymchwiliad; dangoswyd y posiblrwydd o benderfynu pynciau'r gorphenol drwy efrydu arddangosiadau'r presenol. Os ydym am ddeall yr hyn a ddigwyddodd yn y gorphenol rhaid i ni edrych o'n cwmpas a sylwi ar yr hyn gymer le yn awr o flaen ein llygaid. Yn y modd hwn y mesurodd Lyell allu oedd natur—grym dwfr yn rhedeg, nerth llanw'r mor, dylanwad rhew a gwres, symudiad (codiad a gostyngiad) araf rhanau o'r ddaear, cyfnewidiad graddol yr hinsawdd drwy ddylanwadau seryddol. Gallodd ddangos fod y nerth-

oedd a weithredant heddyw, a'r rhai a fu yn y gorphenol agos ac anamgyffredadwy bell yn ddigon i gyfrif am yr hyn a'n syna ni'n gymaint heddyw—codiad mynyddoedd a ffurfiad dyffrynoedd—heb ymyriad gallu oedd allanol a goruwchnaturiol o gwbl. Rhoddwyd yr hoelen olaf yn arch Cuvier a'i ysgol gan Darwin a Wallace. Gweithiai'r ddau'n anibynol, ac ar y llinellau a osodwyd i lawr gan Lyell, sef drwy efrydiaeth hirfaith a manwl o'r amgylchiadau o dan y rhai y ceir bywyd anifeiliaidd ar hyn o bryd. Ar ol blynyddoedd o waith amyneddgar arweiniwyd y ddau i'r un casgliadau diamheuol. Gwnaethant ganlyniadau eu hymchwiliadau'n gyhoeddus tua'r un adeg, a hwy'n gweithio mewn gwledydd mor bell oddiwrth eu gilydd a'r Malay Peninsula a Lloegr. Yr oeddwn wedi trefnu myned yn fanylach i waith Darwin yn egluro dadblygiad rhywogaethau mewn tylwythau o anifeiliaid a phlanigion, ond teimlaf y rhaid darfod a'r "*Origin of Species*" drwy roddi awgrym neu ddau sut mae'n bosibl cael gwahanol rywogaethau mewn tylwythau o anifeiliaid a phlanigion.

Cymerer ddau anifail mor debyg ag sydd bosibl i'w gilydd o ran nodweddion, ond eu bod yn gwahaniaethu ychydig oddiwrth ereill o'r un rhywogaeth. Os ceir gan y rhain i esgor ar epil, gellir gweled y posiblrwydd i'r nodwedd arbenig ynddynt fod yn amlycach yn y disgynyddion nag yn y rhieni, ac i'r peth arbenig hwn ddyfod yn nodwedd mor amlwg ar ol cenedlaethau nes cynyrchu rhywogaeth newydd yn y tylwyth. I bob dyn sydd yn meddwl, mae hyn yn amlwg i'w weled mewn anifeiliaid dof y dyddiau presenol. Cymharer hyn a'r hyn a welir yn y mathau lluosog o *gabbages* a welir y dyddiau hyn. Maent oll wedi tarddu o'r bresych gwyllt a welir o hyd yn tyfu ger Llandudno. Felly *varieties* o'r tylwyth *Brassica* ydyw y *Cauliflower*, *Brussels-sprouts*, &c., &c. Un peth arall ddylid son am dano yw hwn: Un o brif egwyddorion Darwin i egluro y gwahaniaeth rhwng anifeiliaid yr amser presenol a rhai cyfnodau daearegol blaenorol ydyw hon. Po fwyaf y gallai unrhyw anifail neu blanhigyn gymhwyso ei hun i fyw o dan amgylchiadau newyddion, megis cyfnewidiadau hinsawdd (y rhai, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ddiameu, a fu) mwyaf tebyg a fyddai o fyw—y gwanaf, gwaedded, oedd hi drwy'r canrifoedd, a'r mwyaf anghymwys a'r eiddilaf a ai i'r wal. Rhyw nodwedd neu nodweddion arbenig yn yr anifail a'i helpai drwy'r cyfnewidiadau. Dyna fel y bu hi drwy holl hanes bywyd. Bu cyfnewid graddol yn ol cyfnewidiad amgylchedd hyd nes yn y diwedd mae bodau daear wedi newid i raddau helaeth, ac nid yw'r hanes ar goll. Gellir erbyn hyn olrhain y cyfnewidiadau. Mae Daeareg wedi dadgudd io i ni gynwys y ddaear; a dyddorol iawn, pe caniatai gofod, fyddai olrhain dadblygiad, dyweder, y ceffyl, oddiwrth ei gyndad pum bys a llai ei dwf (maint cadno). Gellid gwneuthur hyn yn hawdd ddigon; nid oes un ddolen o'r gadwyn ar goll, ac felly mae'r *stages* i gyd wrth law. Felly hefyd am anifeiliaid ereill a phlanigion. Trefnais hefyd roddi hanes gwaith ein harwr mewn cyfeiriadau ereill. Ond cyn gadael ei fanylrwydd a'i sylwadaeth dwedaf nad oedd un math o fywyd yn rhy ddistadl gan Darwin i'w efrydu.

Talodd lawer o sylw i'r abwydyn, a chyfrifai fod abwydod yn codi bob blwyddyn gymaint ag undunell - ar - bymtheg o dir i wyneb bob cyfer, a dywed fod abwydod wedi chwarae rhan bwysicach o lawer yn hanes y byd nag y meddylia'r mwyafrif o ddynion. Dyma'r dyn a barchwn o eigion calon, ac y rhyfeddwn ato am faint ei wasanaeth i ddynolryw a'i gyfraniadau at wybodaeth ddynol, a'i gariad at y gwir, ei ddyoddefgarwch mewn poen, a charedigrwydd tyner ei fywyd. A phan gofiwn na chafodd un dydd iach am y deugain mlynedd olaf o'i oes, mae ei waith yn rhyfeddol, yn aruthrol ryfeddol a mawr.

Anghyflawn ac amherffaith iawn ydyw yr ychydig hanes uchod, ond byddai'r erthygl yn anghyflawnach fyth pe'i gorphenem heb ofyn y cwestiwn, "Beth sydd a fyno hyn oll a'r Eglwys a Duwinyddiaeth?" a cheisio ateb y cwestiwn yn fyr. Fe wêl y darllenydd fod yr hen Eden a'r Cwymp wedi eu symud—yr hen Eden a goleddai'r tadau gyda chymaint cariad wedi rhoddi lle i syniadau uwch a gogoneddusach. Mae cread y chwe' niwrnod wedi ffoi a Dadblygiad wedi cymeryd ei le. Diolch i'r nef, ie, plygwn liniau mewn diolchgarwch am fod y goleuni newydd wedi symud y llen, a rhoddi i ni olwg ardderchocach a mwy teilwng ar Greawdwr y bydysawd. Mae ei fychander blaenorol bellach wedi diflanu, a gwelwn ei ogoniant yn disgleirio'n fwy-fwy fel yr haul hyd ganol dydd. Rhyfedd fel y glŷn yr eglwys wrth yr hen, am ei fod yn hen, yn lle tyfu gyda'r goleuni. Mae swyn o hyd mewn ofergoeliaeth. Beth, bellach, os diflanodd y Cwymp? Beth ddaw o'r Ymgnawdoliad a'r Iawn? Rhaid newid y rhaglen, yn wir, a bod yn fwy *up-to-date*, neu dioddef wna'r eglwys, yn siwr. Paham lai? Paham yr ofnir y gwirionedd? Onid gwell helaethu'r terfynau? O leiaf, dyna farn wylaidd

Yr Ysgrifenydd.

EMYN ROBERT AP GWILYM DDU.*

Beirniadaeth Mr. D. R. Davies, Ysgol y Cynghor, Cwrtnewydd.

Y mae y brwdfrydedd tanllyd gyfrifir gan haneswyr fel yn un o brif nodweddion y Celt yn ei anghymwyso i lanw y safle uwchaf yn y cymeriad o feirniad llenyddol—cymeriad sydd yn gofyn cyfuniad o'r wybodaeth eangaf, yr ymchwiliad manylaf, a'r ystyriaeth fwyaf bwyllog i fod yn llwyddianus ynddo. Mae yr arferiad o ddefnyddio y radd uwchaf (*superlative*) wedi cymeryd meddiant mor llwyr o'r mwyafrif o'r rhai a ymgymerant â'r swydd o feirniaid llenyddol yn Nghymru, fel mai y rheol ddieithriad yn mron yw clywed yr awdl neu y bryddest fuddugol yn mhob eisteddfod yn cael ei gorfoli fel un glasurol neu Filtwnaidd. Eto, credaf ei bod yr un mor wir fod gan y nodwedd hon lawer iawn i gyfrif am lwyddiant rhai o'n cydgenedl sydd wedi dringo yn uchel iawn fel areithwyr dawnus a phoblogaidd. Gwyr pawb, fodd bynag, fod yr areitheg fwyaf llwyddianus, yn ei hymdrech i enill cydsyniad deallol y gwrandawydd, yn aml yn defnyddio gormodiaeth eofn, gan roi allan ei gosodiadau yn y lliwiau mwyaf tanbaid, un ai o gerydd neu o gymeradwyaeth. Ond rhy brin o lawer yn nghlorian ystyriaeth bwyllog y fyfyrgell yw llawer o osodiadau trymaf a mwyaf hwyliog yr areithwyr poblogaidd ar y llwyfanau. Ni bu enghraifft mwy tarawiadol o hyn erioed na gosodiad Mr. Lloyd George mai yr emyn sydd yn

* Yr emyn prydferthaf yn y byd yn ol Mr. Lloyd George.

dechreu " Mae'r gwaed a redodd ar y groes " yw yr un prydferthaf yn y byd.

Rhag-dybiaf mai gwell gan bob areithydd, pan amheuir unrhyw osodiad o'i eiddo, ydyw beirniadaeth onest na chydnabyddiad ddistaw fod ganddo yr un drwydded ag sydd gan y bardd pan fola hwnw yn ei thro y friallen felen neu y lili wen fel y brydferthaf o flodion byd. Cymeraf yn ganiataol, gan hyny, mai sobrwydd beirniad ac nid bardd sydd wedi urddo Robert ap Gwilym Ddu fel adeiladydd y deml emynyddol brydferthaf yn y byd, a phair hyn i hiraeth gyfodi ynof am gael y fraint o ymweled a hi.

Disgwyliaf i'r adail fod o'r defnyddiau goreu drwyddi, yn gelfydd a chywrain ei gwneuthuriad, ei neuaddau yn deg oddiallan, ac wedi eu dodrefnu yn deilwng a phwrpasol oddifewn, a'r olwg arni yn nghyfanrwydd ei chynllun yn creu yr edmygedd a'r syndod mwyaf boddhaus yn mynwes pob edrychydd. Ac uwchlaw hyn oll disgwylir y daw rhyw dyner yspryd o ledneisrwydd ac addoliad i'm croesawu ar ei throthwy ac i'm tywys drwy ei chynteddoedd. Yn wir, ar ol darllen yr emyn drosodd a throsodd, ni phetrusaf ddweyd ei fod o ran iaith yn un o'r rhai mwyaf dillyn yn y Gymraeg, ac fod saerniaeth y penillion yn wir gelfydd a meistrolgar. Eto i gyd, nid yw hyn oll ond dwyn tystiolaeth fod y meini ddefnyddir gan yr adeiladydd, o ran ansawdd yn dda, a'u bod wedi eu gosod ar eu gilydd i ffurfio y muriau gyda medrusder mawr. Ond deuer yn nes at y deml, a chraffer yn fwy manwl arni, a cheir gweled nad doeth dewisiad ac nad da trwsiad ambell faen yn ei muriau.

Dansoddol o ran natur ydyw y mwyafrif o'r enwau arferir, megis *gogoniant*, *haeddiant*, *rhinwedd*, &c., ac felly nid ydynt o'r dosbarth mwyaf cymwys i ddal i fyny y syniadau yn fyw o'n blaen. Credaf mai y ffaith eu bod yn cyfranogi gormod o'r nodwedd ddansoddol (*abstract*) yma sydd yn cyfrif i raddau pell iawn am aflwyddiant llawer o emynau Iolo Morganwg i daro tant tyneraf calon Cymro. Nid digon gosod allan wirioneddau mawrion mewn odl er gwneud emyn bendithiol ; rhaid dilladu meddyliau y nef yn ngwisg seml y ddaear (fel gwnai yr Iesu yn ei ddamhegion) cyn byth y gallant ymddangos yn y fath brydferthwch ag a sicrha iddynt derbyniad croesawgar i fewn i galonau ac eneidiau dynion.

Defnyddir un neu ddau o ansoddeiriau hefyd, mewn modd sydd i mi yn ymddangos yn lled amhenodol. Cymerer yr ansoddair *glân*, er enngraifft. Rhaid mai pur laes yw yr ystyr roddir iddo cyn y gellir ei gymhwyso at enwau mor wahanol a *thelyn*, *oes* a *dosparth*. Pan sylwer yn mhellach, fel y mae yr ansoddair yn cael ei ieuo bob tro yn odlgymhar i un o brif eiriau yr emyn, sef *cân*, nid annaturiol meddwl mai gair lusgir i fewn er mwyn ateb gofynion arglwyddes galed Cynghanedd ydyw. Taenir mantell cyfiawnhad, fodd bynag, dros bob mân feflau o'r fath gan dlysni yr arddull Gymreig, yn nghyd a'r melusder i glust Cymro sydd yn y dinc gynghaneddol a'r hon y diweddir amryw o'r cwpledau.

Ond yn nheithi uwchaf emyn y mae y cyfansoddiad hwn yn fwyaf diffygiol. Fel dernyn barddonol credaf fod degau o'i well yn ein hiaith, chwaithach mewn ieithoedd eraill sydd lawn gyfoethoced a'n heiddo ni. Ag eithrio y gymhariaeth dlos sydd yn y pumed penill, a'r traws-symudiad (*metaphor*) byw yn y chweched, hynod amddifad o flodau yr Awen ydyw. Edrychir yn ofer drwyddo am y cymhariaethau swynol a'r cyffyrddiadau tyner frithant emynau goreu Glan Geirionydd, ac Iolo, a Phantycelyn, ac a wasanaethant fel grisiau i'r enaid i ddringo ar hyd-ddynt tua'r nef. Ofnwyf fod hawl yr emyn i'r enw barddoniaeth, gyda'r eithriadau ardderchog a nodwyd, yn gorphwys yn ormodol ar sylfeini bas ac ansicr acen, odl, a chynghanedd.

Cyn belled ag y gallaf weled, nid oes ond dau syniad yn yr oll o'r wyth penill, sef, yn 1af, mai testyn cân y nef yw rhinwedd gwaed ac aberth Iesu, ac yn 2il, na fydd i'r gân hon fyth derfynu. Gosodir y ddau feddylddrych hyn allan drachefn a thrachefn heb ond ychydig iawn o gyfnewidiad mewn geiriau yn yr wyth penill. Onid arwydd o wendid ydyw tylodi o'r fath yma? Nid yw y ffaith fod y bardd yn gorfod tramwy dros yr un tir mor aml mewn hyd yn oed wyth penill yn adlewyrchu y clod uwchaf ar ei athrylith, tra yr eddyf fod yna ddefnydd 'dirfawr gân di-ddarfod' yn ei destyn.

Nid oes dim gwreiddioldeb yn perthyn i'r emyn ; mae y syniadau ymron mor hyned a Christionogaeth yr eglwys, a'r cymhariaethau—telynau'r nef a'u tannau—yn hŷn na hyny. Mae y pwys roddir ar haeddiant gwaed y Groes, os nad yn uniongyrchol, yn andwyol i foesoldeb a buchedd dda, o leiaf yn rhy dueddol i greu disgwyliadau nad oes addewid o'u cyflawniad yn nysgeidiaeth yr Hwn a osododd i lawr y rheol mai yr hyn a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Credaf ei bod yn bosibl gorfoli oriau angeu yr Iesu ar draul anwybyddu dyddiau ei fywyd. Yn ystod ei oes, oni ddywedodd y Gwaredwr, "Myfi yw goleuni y byd.' Do, profodd a phrofa fyth yn heulwen ein bywyd, ac adlewyrchiad o oleuni yr heulwen glaer hon ar blaned oer marwolaeth oedd ei angeu.

Nid wyf am awgrymu mai *cam*-syniadau yw y syniadau ar y rhai y seilir yr emyn ; eto credaf nad yw y wedd roddir ar y gwirionedd ynddo yn un fedr enyn "y llin yn mygu" sydd yn mhob enaid yn fflam, ac nad yw ychwaith yr addasaf er dwyn i lawr y fendith a gais pob plentyn Duw pan fola 'i nefol Dad.

IESU A BEIRNIADAETH DDIWEDDAR.

Gan y Parch. J. Islan Jones, B.A., Accrington.

Pan oeddwn yn yr Almaen tua dwy flynedd yn ol y deuais gyntaf i adnabyddiaeth o gyfres o lyfrau crefyddol, poblogaidd yn eu harddull, wedi eu hysgrifenn gan dduwinyddion dysgedicaf yr Almaen, ac o dan olygiaeth y Proffeswr Schiele o Marburg. Un o'r gyfres hono yw llyfr y Proffeswr Bousset o Göttingen ar *'Iesu' yr hwn a gyfeithiwyd i'r Seisneg yn ddiweddar. Cefais fy synu a'm swyno gan y llyfr pan y darllenais ef gyntaf, a bwriedais ragor nag unwaith ysgrifenu 'adolygiad' o hono i'r YMOFYNYDD cyn i'r cyfieithad Seisneg ymddangos, ac ar gais y Golygydd mae'n bleser mawr genyf wneud ychydig sylwadau arno yn bresenol.

Er fod Bousset yn un o dduwinyddion blaenaf ei wlad, nid yw dyfnder a thrylwyredd ei ddysg yn ei anghymwyso i ysgrifenu llyfr hynod o ddarllenadwy a dealladwy i'r cyffredin ei amgyffred. Cychwyna'r awdwr nid gyda'r amcan o amddiffyn neu wrthbrofi unrhyw syniad poblogaidd parthed i'r Iesu, ond er mwyn chwilio'r gwirionedd yn ddiduedd a diragfarn, a chredaf

**Jesus.* G. W. Bousset. Williams & Norgate. 4s.

y gwna hyd yn nod y rhai a anghytunant a'i syniadau addef ei fod yn ymdrin a'r testyn gyda'r parchusrwydd llwyraf. Y mae meddwl a chalon wedi eu cyfuno mewn modd hapus yn y llyfr.

Mae'n amlwg oddiwrth y bennod gyntaf, pa olwg gymera Bousset ar bersonoliaeth yr Iesu. Dywed fod dechreuad yr Iesu yn gorwedd mewn tywyllwch; nid yw hanes yr enedigaeth wyrthiol a geir yn Matthew a Luc ond ffug-draddodiad. Nid yw Marc yr efengylydd boreuaf yn son am y fath beth, a'r unig ffaith ar yr hon y cytuna hanesion Matthew a Luc yw i'r Iesu gael ei eni yn Bethlehem. Y mae'r rhelyw o'r hanesion yn gyfangwbl anghyson a'u gilydd. Os y methwn ni gredu yn yr enedigaeth wyrthiol nid yw hyny yn un rheswm dros i ni fod yn llai gweithgar a brwdfrydig a ffyddiog fel Cristionogion. Mor bell ag y gellir casglu oddiwrth ei ysgrifau ni wyddai Paul ddim am yr enedigaeth wyrthiol, ac eto ble gwelwn ni Gristion mwy ffyddiog na Phaul? Rhaid i ni gymeryd yr hanes fel coronbleth hardd wewyd gan ddychymyg grefyddol yr eglwys foreuol, i'w gosod ar ben clwyfedig y dynol Iesu, ac yn y goleuni yna gallwn o hyd werthfawrogi hanes genedigaeth Iesu gan Luc fel carol Nadolig dlos a swynol.

Yna aiff Bousset i ddadansoddi cymeriad yr Iesu a'i gydmaru a phroffwydi yr Hen Destament ac a dysgawdwyr ei oes ei hun. Daw i'r casgliad naturiol fod yr Iesu yn fwy dynol na'r un o honynt. Ni pherthynai i'r Iesu ddim o hynodrwydd yr hen broffwydi ac Ioan Fedyddiwr; eithr cawn ef mewn dull cartrefol, naturiol, gyda chalon yn orlawn o deimlad a thosturi yn cofleidio plant bychain yn yr heolydd, yn ymweled a chartrefi diaddurn ei gydwladwyr ac yn ei ffordd ddengar, hapus ei hun yn ceisio puro a choethi eu serchiadau. Eto, er ei fod mor syml a dynol nid rhywun cyffredin ydoedd, ac fel y danfona'r haul ei belydrau i gonglau tywyllaf y ddaear heb i'w brydferthwch a'i burdeb gael eu amharu, felly rhodiai Iesu yn mhlith dosbarth iselaf cymdeithas gan wasgar pelydrau cariad i'w bywydau heb i'w enaid ei hun gael ei lychwino.

Penod ddyddorol yw'r un ar "Iesu fel Pregethwr a Meddyg." I'r Iesu yr oedd yna gysylltiad anwahanadwy rhwng y materol a'r ysprydol. Yr oedd meddyginiaeth yn ei babandod y pryd hwnw; defnyddiai y meddyg bob math o foddion gwellhad, yn cynwys amrywiol fathau o swyngyfaredd, a choeg-arferion. Gwyddai Iesu y cysylltiad agos rhwng y meddwl a'r corff a cheisiai dylanwadu ar anhwylderau corfforol drwy gyfrwng y meddwl. Nis gellir amheu'r ffaith fod gan ddyn o bersonoliaeth gryfach na'r cyffredin ddylanwad ar eraill sydd wanach nag ef, ac y gall dylanwad un enaid ar y llall leddfu rhai mathau o anhwylderau corfforol o leiaf am dymhor. Gellir rhestru anhwylderau gieuol (*nervous diseases*) yn mhlith y rhai hyn. Ar y tir yma gallwn yn hawdd gredu fod yna ryw sail i lawer o'r gwyrthiau iachaol gymerant yn le Lourdes ac yn Nhreffynon. Tybia Bousset y gellir yn y goleuni yna, dderbyn fel gwirionedd y rhan fwyaf o'r gwyrthiau iachaol a briodolir i'r Iesu; ond y mae rhai o'r gwyrthiau a gofnodir, tu allan i bosiblrwydd dylanwadau o'r fath, a rhaid eu gwrthod fel ffug-hanesion.

Rhaid i mi yn awr basio heibio cryn lawer o benodau sydd yn ddyddorol ac addysgiadol iawn i'r benod derfynol. Tybia Bousset fod yr Iesu ei hun yn credu yn ei ail-ddyfodiad ar gymylau y nef, a hyny yn fuan. Y mae'r syniad yn nghyd a'r teitl 'Mab y dyn' wedi eu cymeryd o Lyfr Daniel. Gwyddom yn dda oddiwrth ei lythyrau at y Thessaloniaid mor gryf y credai Paul yn ail-ddyfodiad buan yr Iesu. Fodd bynag fel arall y mae cwrs hanes wedi rhedeg, ac mor bell ag y mae deddfau natur a mater yn myned nid yw bywyd Iesu yn eithriad i eiddo eraill o ddynolryw.

Ni hawliodd Iesu erioed fod yn fwy na dyn. Ceisiai arwain dynion at Dduw, a'i dystiolaeth yw, "Nid oes neb da ond un, sef Duw." Ni wnaeth Iesu erioed ddyfalu na mynegu'r syniad fod maddeuant pechodau gan Dduw yn dibynu ar ei farwolaeth aberthol ef, neu ar 'Iawn' ei angau ef. Y mae'r Eglwys Gristionogol, fodd bynag, drwy'r oesau, wrth fyfyrio ar farwolaeth ei Harglwydd wedi ceisio cael allan amcan neillduol ynddo, ond yr ydym yn agosach i'r gwirionedd drwy osod o'r neilldu unrhyw syniad neillduol parthed angau Iesu.

Ychydig ddywed yr awdwr am adgyfodiad yr Iesu, ond y mae'r ychydig hyny yn ddigon i ddangos pa olwg a gymer ar yr amgylchiad. Dilynwyd y croeshoeliad gan y Pasg yn nghalonau'r disgyblion, a'r ffaith ddiysgog ddaw i lawr i ni o'r traddodiadau yw fod yna argyhoeddiad anorchfygol yn eneidiau y disgyblion fod yr Iesu, er wedi marw, eto'n fyw, wedi ei ryddhau o gadwynau bywyd materol. Er gwaethaf ansicrwydd traddodiad dywedwn ninau, Amen, ac er treigliad canrifoedd teimlwn ei bresenoldeb gyda ni, yn rhoddi i ni ddyrchafiad ysprydol, canys ynddo y deuwn i gyffyrddiad a ffynonell ein bywyd ysprydol.

Temtiwyd fi yn fynych i ddyfynu yn helaeth, ond ni chaniatai gofod yr YMOFYNYDD. Cymeradwyaf y llyfr yn galonog i sylw'r darllenwyr.

Cymera Neumann yr un olwg ar berson Iesu a Bousset, a hono yw yr un Undodaidd. Nid yw ei arddull, efallai, yn hollol mor boblogaidd ag eiddo Bousset, er hyn nid oes dim yn anhawdd i'w ddeall yn y llyfr.

Ceir rhagymadrodd i'r llyfr gan y Proffeswr Schmiedel, Zurich. Credaf fod llawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yn gyfarwydd ag erthyglau Schmiedel yn yr *Encyclopaedia Biblica*, ac amcan ei ysgrif bresenol yw cywiro camddealltwriaeth o'r erthyglau hyny. Y mae yna rai ysgrifenwyr wedi ceisio profi mai ffug-hanesion yw yr Efengylau, fod eithafion *hero-worship* yn amlwg drwyddynt. A chaniatau, meddai Schmiedel, fod yna rai pethau eithafol yn yr Efengylau—ymgais i wneud yr Iesu yn Dduw, eto y mae yna ranau o'r Efengylau nas gellir yn bosibl ddwyn y cyhuddiad hwn i'w herbyn, megys 'A'r Iesu a gynyddodd mewn doethineb a chorffolaeth a ffafr gyda Duw a dynion, Luc 2 : 52 ; 'A phan glybu yr eiddo ef hwy a aethant i'w ddal ef ; canys dywedasant, y mae efe allan o'i bwyll,' Marc 3 : 21 ; 'Ac ni allai efe yno wneuthur dim gwyrthiau, ond rhoi ei ddwylaw ar ychydig gleifion a'u hiachau hwynt,' Marc 6 : 5 ; 'Paham y gelwi fi yn dda? nid oes neb da, ond un, sef Duw,' Marc 10 : 18 ; 'Pwy bynag a ddywedo air yn erbyn Mab y Dyn, fe faddeuir iddo,' Math. 12 : 32 ; 'Eithr am y dydd hwnw a'r awr ni ŵyr neb, na'r angylion, na'r Mab ond y Tad,' Marc 13 : 32 ; 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist,' Marc 15 : 34. Nis gellir dweyd am y brawddegau hyn, fodd bynag, eu bod wedi eu lliwio gan ymgais i ddyrchafu'r Iesu yn ormodol. Nis gall anffyddiwr honi hyny am y rhai hyn ; felly cymera Schmiedel hwy fel sylfeini sicr i adeiladu arnynt. Y mae'n enwi naw rhan o'r Efengylau fel pileri sylfaenol Cristionogaeth. Y mae efe hefyd yn derbyn pobpeth yn yr Efengylau sydd yn gydweddol a'r rhanau hyn, ac a'u gilydd ; ond y mae ei wrthwynebwyr yn dweyd fod Schmeidel yn dal mai dim ond naw o adnodau gwir a gwreiddiol sydd yn yr Efengylau. Ymdrecha glirio ei hun o'r camddealltwriaeth hyn.

Dysgybl Schmiedel yw Neumann. Cychwyna drwy ymosod ar John M. Robertson, ac ereill a haerant nad oes sicrwydd i Iesu fodoli erioed. Mae tystiolaeth awduron paganaidd

---

* *Jesus.* Arno Neumann. London : Adam and Charles Black. 2/6.

yn brin, mae'n wir, ond eto ceir gan Josephus, Tacitus, Seutonius, Pliny, ac ereill, ddigon o dystiolaeth i foddloni'r cyffredin i Iesu fyw, a chael ei groeshoelio yn Judea o dan Pontius Pilat. Mae tystiolaeth Paul, yr hwn a ysgrifenai o fewn pum-mlynedd-arhugain i'r croeshoeliad yn fwy cadarn na dim. Ymdrinia Neumann a chyflwr meddwl y wlad yn amser Iesu. Fel Bousset tafla o'r neilldu yr enedigaeth wyrthiol. Credir fod gan Iesu ddylanwad ar gleifion ; fod rhai o'i ddamhegion o dan ddylanwad traddodiad wedi gwisgo agwedd gwyrthiau, megys, porthi'r pum mil, meilldithio'r ffigysbren, yr arian yn ngenau y pysgodyn, &c. Nid ymddangosodd yr Iesu i'w ddysgyblion yn allanol ar ol ei groeshoeliad ; gweledigaethau mewnol yn unig a gawsant, ond i'r cofnodwyr eu camddeall.

Y mae'r llyfr yn ddarllenadwy a dyddorol ac yn llawn gwerth haner coron ; pryner a darllener ef.

"GWINLLAN Y BARDD."

Cyhoeddodd y Parch. Daniel Evans, B.D., neu Daniel Ddu o Geredigion, gyfrol o'i waith barddonol, dan yr enw "Gwinllan y Bardd," yn y flwyddyn 1831 ; ac ailgyhoeddwyd hi, gydag ychwanegiad, yn 1872, gan Jenkin Davis, Llanbedr; ond cyn hir gwerthwyd allan bob copi o honi, fel nas gellid cael un am arian ; a'r diwedd fu i Mrs. Morgan, Moelfre Farm, Llanbedr, ac wyres i frawd henaf yr awdwr, ddyfod yn mlaen, ac ymgymeryd a'r gwaith o ddwyn allan y trydydd argraffiad. A da genyf ddweyd wrth ddarllenwyr YR YMOFYNYDD ac ereill fod y "Winllan" newydd ddyfod allan o'r wasg eto, mewn gwisg ddestlus, o Caxton Hall, Llanbedr, a bydd yn nwylaw y tanysgrifwyr yn fuan. Mae yr argraffiad hwn yn cynwys bywgraffiad helaeth a manwl o'r bardd, yn nghyd a'i lun yn ei wisg golegawl, a chynwysa hefyd fyr hanes y teulu, wedi ei ysgrifenu gan y gyhoeddwraig, yr hyn sydd yn ychwanegiad mawr at ddyddordeb y llyfr : a'r oll o dan olygiaeth y Parch. J. Islan Jones, B.A. Ceir ynddi hefyd ddarlun o Maesmynach, lle genedigol yr awdwr, a darlun o Maesnewydd, lle y bu yn preswylio am hir flynyddau ; ac yn yr un darlun cawn olwg ar Maesgwyn a phontbren Capel Sant Silin. Gwelwn na arbedwyd na thraul na thrafferth er ei gwneyd yn wir ddyddorol ; a'm gobaith yw y try yr anturiaeth allan yn llwyddiant perffaith. Costiodd ei dygiad allan lafur a lludded mawr i Mrs. Morgan, ac y mae ei gwaith, yn fy marn onest i, yn glod i'w phen a'i chalon. Wrth edrych ar *faint* y gyfrol hon, ac ystyried ei *phris*, tarewir ni a syndod, gan ei bod o ran ei maint lawer yn fwy na'r rhai blaenorol, ond o ran ei phris lawer yn llai. Fel y gwelir yn YR YMOFYNYDD, ei phris yn bresenol yw 5s., yn rhad trwy y *post* i danysgrifwyr, a gellir ei chael oddiwrth Mrs. Morgan. Dylai ieuengctyd ein gwlad ymdrechu ei phwrcasu ar unwaith, a dylent lawenhau am fod cyfle iddynt i gael gweled gwaith bardd melusber y "Winllan." Nid oes eisieu imi ddweyd llawer am ragoroldeb gwaith y Bardd Du, ond gallaf ddweyd, fel y dywedais o'r blaen yn YMOFYNYDD Medi, 1904, sef, bod ei enw yn air teuluaidd hyd aelwydydd ein gwlad, ac y darllenir ei waith eto gyda boddhad ac hyfrydwch am oesau lawer. Er na fu ei

oes ond cymharol fer, eto, trwy ei ddawn godidog a'i lafur caled, gadawodd ar ei ol enw, "A chofiant llawnach hefyd na chareg bedd, na chreig byd."

Glaslwyn. DEWI HEFIN.

Y DDIRPRWYAETH EGLWYSIG GYMREIG.

GAN Y PARCH R. J. JONES, M.A., ABERDAR.

"Not all the King's horses nor all the King's men
Shall take me to London on that business again."

Mae'r hen rigwm yn desgrifio fy nheimladau hyd y blewyn. Nid oedd yr hyn a ddarllenais na'r hyn a glywais cyn myned wedi bod yn galondid i mi; a darfu i'r myned i fynu dydd Gwener a'r dyfod yn ol ddydd Sadwrn a phregethu ddwywaith dydd Sul lacâu cryn lawer ar hoelbreni (*pegs*) yr hen babell freulyd, fel nad yw ddim yn debyg y bydd arnaf awydd byth mwy i fyned trwy yr un cyffelyb brofiad. Cwrddais â Goronwy yn Paddington ac ni fum erioed yn falchach o'i gwrdd. Wedi archebu am lety nos yn Southampton Row, aethom ar ymweliad â 32, Highbury Place, a threuliasom yno ddwy awr hapus iawn. Dranoeth pan yn ymyl y man cyfarfod yn Westminster, gwelsom y Parch. V. D. Davis, Golygydd yr *Inquirer*, yn ymdynu yn yr un cyfeiriad. Mae rhywbeth sy'n sirioli'r galon mewn gweled gwyneb a adwaenwn ni pan yn mhlith dieithriaid ac yn mhell o gartref. Ceisia'r *suffragettes* wisgo gwedd galonog a gwrol yn mhresenoldeb yr heddgeidwaid fydd yn eu llusgo i garchar, a mawr dda iddynt am hyny; ond byddai'n hawdd genym gredu er gwaethaf hyny fod y galon yn curo gryn dipyn yn gyflymach y tu cefn i'r wisg.

Wel, dyma ni yn y rhagystafell (yr *anteroom*); cawn yno amryw ar yr un neges a ninau debygwn—wedi dyfod i fyny i roi *evidence* rai, ac eraill i wrandaw a gwylied. Yr oedd y bargyfreithiwr, Mr. D. Lleufer Thomas yno yn edrych yn siriol ac yn hapus. Nid ymddangosai fod dim yn ei flino ef.

Am 10.10, dyma'r gwahoddiad i fewn i'r ystafell brawf. Bechan yw'r ystafell o ran maint, ac yn fuan y mae yn llawn. Cawn fod yma ddau fwrdd; ac o amgylch yr un nesaf i'r drws yr oedd gwyr y pinau ysgrifenn buan, fwyaf o honynt; methai rhai gael lle yno. Wrth y bwrdd arall oedd y dirprwywyr—yn y canol, meilord, yr Ustus Vaughan Williams (Cadeirydd), ar ei dde, y Prifathraw Fairbairn, yr Hybarch Archddiacon Owen Evans o Gaerfyrddin, nai fab brawd i'r Undodydd, enwog unwaith, pan oeddwn i yn ifanc, y Parch. Owen Evans, o Gefncoed, Lord Hugh Cecil, Mr. Frank Edwards, A.S., a Mr. J. E. Greaves; ar ei aswy, Syr John Williams, Mr. S. T. Evans, A.S., K.C., a'r Proff. Henry Jones, LL.D.—Dynion oll o bwys ac o ddylanwad mawr, chwech Eglwyswr a thri Anghydffurfiwr, medd y papyrau. Eistedda'r tyst fydd dan brawf bron ar gyfer y Cadeirydd tu arall i'r bwrdd, ac ar ei dde mae'r cofiadur swyddogol, gwr ieuanc iawn yr olwg arno, ond yn amlwg yn deall ei waith. Mewn cornel wrth ei

hunan, yn ngolwg y tyst, gyda'i ddesg o'i flaen, y mae'r Ysgrifenydd, Mr. R. M. Thomas. Dyna'r peiriant, ac yn awr am ei weled yn gweithio.

Bum yn lwcus i gael eisteddle cyfleus i wrandaw ac i weled. Y tyst cyntaf fu dan arholiad oedd un Slater, cyfreithiwr o Abertawe, a thyst wrth fodd calon y dirprwywyr oedd. Deallai ei waith, yr oedd mor dawel a deuddeg o'r gloch, a'i atebion o hyd yn barod ac i bwrpas. Bu dan arholiad, rhwng Gwener a Sadwrn, ryw naw awr. Nid rhyfedd ei fod yn y diwedd yn gwaeddi am drugaredd. Nis gwn beth oedd ei deimlad ef gyda golwg ar y cwestiynau. I mi ymddangosent fwyaf o honynt yn ddibwys a distadl i'r eithaf, mewn gair yn ddim mwy na llai na gwastraff ar amser. Holid yn nghylch bedydd, athrawiaeth, yr athrawiaethau oedd yn peri rhaniad rhwng Arminiaid a Chalfiniaid. Paham na allai'r Methodistiaid (C.) a'r Wesleyaid uno a'i gilydd; yr anghydwelediad rhwng Whitfield a Wesley. Pynciau dyddorol ddigon feallai yn eu lle; ond nid oedd yn perthyn i'r Comisiwn ymyraeth a hwynt; ac nid rhyfedd i Mr. Slater yn y diwedd brotestio "It is as much as I can do to obtain a knowledge of Wesleyan Methodism"; ac yn ddiweddarach ddywedyd — "The controversy was a very long time ago and it is better dead and buried." Cynrychioli'r Wesleyaid oedd Mr. Slater, ac un da oedd, pa un a fyddai'r holi i ryw bwrpas neu na fyddai. Y teimlad oedd wedi fy meddianu i cyn iddo ddarfod oedd na wyddwn i fawr beth oedd amcan a diben yr holl fusnes.

Gwelaf yn awr fod telerau yr ymchwiliad yn ddigon pen agored i gael eu darllen mewn rhagor nag un ffordd. Ac wrth gwrs nid yr un ffordd yr edrych Eglwyswr ac Anghydffurfiwr ar bwnc Dadgysylltiad. Fel hyn y darllena'r *Terms of Reference*,—

"To inquire into the origin, nature, account and application of the temporalities, endowments and other properties of the Church of England in Wales and Monmouthshire, and into the provision made and the work done, by the Churches of all Denominations in Wales and Monmouthshire for the spiritual welfare of the people, and the extent to which the people avail themselves of such provision, and to report thereon."

Cymreigiwn fel hyn,—"I wneuthur ymchwiliad i ddechreuad, natur, swm, a chymeriad tymorolion, gwaddoliadau a meddianau eraill Eglwys Lloegr yn Nghymru a Mynwy, ac i'r ddarpariaeth wnaed a'r gwaith wneir gan Eglwysi'r holl enwadau yn Nghymru a Mynwy ar gyfer hawddfyd y bobl, a pha mor bell y manteisia'r bobl ar y cyfryw ddarpariaeth, ac i roddi adroddiad ar hyny."

O'r diwedd dyma fy nhro inau, Es yn mlaen, a theimlais fy mod yn wrthrych llygaid yr holl frawdoliaeth. Ni ddiflanais i'm esgidiau—ddim yn hollol—ac ni aroglais ddim sulphur, er y gallai fod yno. Aethum i fyny i Lunden gyda'r unig fwriad i roi help ac i ddywedyd beth wyddwn am yr enwad bychan y mae genyf yr anrhydedd o fod wedi perthyn iddo am rai blynyddau bellach. Ni fum i ddim yn hir cyn cael ar ddeall na wyddwn i ddim llawer am fy mhwnc. Y mae gan y bobl hyn lygaid eryraidd, gwelant drwy wàl ddwy droedfedd. Dyrysant ddyn, a pharant iddo deimlo, nad beth fyddo ei feddwl na'i fwriad ei hunan, nad yw e' ddim amgen na charcharor ar ei dreial yn y doc. Ni chymerant yn ganiataol ei fod yn dywedyd y gwir, yn hytrach eu tuedd yw amheu hyny. A pharodd hyny i mi unwaith deimlo yr hen Adda yn cael ei gynhyrfu ynwyf ac ni fum yn mhell o fyned dros y *rails*. Feallai fy mod yn camgymeryd wrth feddwl felly, wn i ddim.

Y mae y rhan fwyaf o'r hyn ddywedais yn hyspys eisoes i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Fel un a gyfrifir fel Paul gynt yn heretic, awgrymais fy marn nad oedd y meddwl Cymreig ddim wedi bod yn rhydd o'r ystaen hereticaidd oddiar amser Pelagius. Dywedwyd wrthyf

mai hanes oedd hyny a hanes amheus ar y goreu. Felly dyna benderfyniad ar y pwnc. Y mae pob hanes i gael ei gau allan. Fel erioed nid oedd cenad i ddynoethi'r cam y mae Anghydffurfiaeth wedi ei oddef. Er gwaethaf y *party in power* bob amser y daw pethau fel hyn i'r golwg. Onid am heresi y llosgwyd Esgob Farrar yn Nghaerfyrddin 1555, y dienyddiwyd John Penry yn wr ieuanc 34 oed, yn 1593? y trowyd y 2000 allan o'u bywiolaethau yn 1662? A pheth mwy a ddywedaf? Canys y gofod a ballai i mi fynegi am y Crynwyr a lanwasant garchardai'r wlad; am Cradock a Wroth ac Erbury, ac am Vavasor Powell, a gysegrodd 13eg o wahanol garchardai â'i ddagrau a'i ddioddefiadau, ac a dreuliodd yr 11eg olaf o'i fywyd yn y carchar, ac yn y diwedd a ollyngwyd yn rhydd gan un uwch na'r Brenin Charles II. A pheth, tybed, oedd ystyr y deddfau a basiwyd—Deddf Unffurfiaeth 1662; Conventicle Act, 1664; y Five Mile Act, 1665, a'r Test and Corporation Acts? Onid er diddymu'r Anghydffurfwyr yr amcanwyd hwy?

Ni wnelai dim y tro ond tystiolaeth llygad. Gosodwyd taflen seddau, aelodau, &c. i fewn a gwrthodwyd hi am mai tystiolaeth ail law oedd. Felly methwyd cael adrodd am y Ddadl Arminaidd, 1779; a'r terfysg fu yn Eglwysi'r Presbyteriaid, Anibynwyr, Bedyddwyr ar y pryd; a'r dadleuon diweddarach fu yn eglwysi'r Bedyddwyr, pan yn ol tystiolaeth Mr. Ben Phillips, St. Clears, yr ychwanegwyd rhyw ddeg o eglwysi bychain gyda'u gweinidogion at yr enwad.

Llwyddwyd i gael gair i fewn ar ei *edge*, fel pettai, am y drafferth aed iddo cyn gael lle i adeiladu capel yn Llandilo (1838) ac wedi hyny yn Rhydygwin (1848). Cafwyd gair i fewn hefyd am y troad allan (1876) yn Llwynrhydowen, "*but the Chairman said that though witness had told the story he scarcely thought it came within the area of the enquiry;*" o'r braidd y credai'r Cadeirydd ei fod yn dyfod o fewn maes yr ymchwiliad presenol. Dywedwn *Finis* ar hynyna.

Ni wyddys yn y byd yn mhen pwy y daeth y meddwl am ddirprwyaeth i fod gyntaf. Gellid meddwl nad yw o darddiad Cymreig, ac o'r braidd y gellir dychmygu fod aelodau Cymreig y Senedd wedi gwneuthur dim tuag at ei droi allan i'r byd. Y mae mor anhebyg i'r hyn y gellid ddisgwyl oddiwrthynt hwy. Yr eisieu oedd parotoi "*case for Disestablishment*"; ond y mae yna rywrai y tucefn nad ydynt am brysuro'r mater, felly dyma'r Commissiwn, ac fel llawer un o'i flaen, nid ymddengys hwn ond megys esgus dros oedi—math o gyffair cwsgbarol i geisio tawelu meddwl y cyhoedd. Da genym weled fod meddwl y cyhoedd yn effro ac yn gweled y rhwystr ac nad oes perygl iddynt fyned i gysgu. Y mae pleidiwr mawr Dadgysylltiad wedi ei wneuthur yn aelod o'r weinyddiaeth a da genym hyny, oblegid credwn, nad faint y gwrthwynebiad,—ac y mae gwrthwynebiad y tufewn,—y gall fod o fwy o ddylanwad i fewn na phe bai allan, er fod clo egwyd mewn ffordd wedi ei osod ar ei dafod cyhoeddus. Gwaith eraill yn awr yw codi a phenderfynu na chaiff y mudiad ddim aros. Y mae yna ddigon o wroniaid eto y tu allan i wasgu'r egwyddorion yn mlaen; ac ni fydd neb yn falchach na Lloyd George oblegid unrhyw lwyddiant fydd yn dilyn. Y mae Cymru dros flynyddau wedi rhoi llafar i'w dymuniad—Eglwys rydd mewn gwlad rydd; ac y mae heddyw y pedwar ar ddeg ar hugain o'i haelodau seneddol, yr oll sydd ganddi, yn unfryd unfarn fod lles y byd a'r Bettws yn galw am dori'r llyffetheiriau aur, a gollwng y carcharor yn rhydd, yna bydd yr holl enwadau yn sefyll ar yr un tir—tir gwirfoddolrwydd; a byddant yn rhydd i wasanaethu'r Meistr yn ol llais a gofyn cydwybod.

MARWOFION.

IONAWR 18, Sarah Griffiths, Tanlan, Cribyn, yn 81 mlwydd oed. Diniweidrwydd, gonestrwydd a didwylledd mewn gair a gweithred, oeddynt nodweddion ei bywyd. Nid oedd ei chylch yn un eang iawn, ond ni fu neb erioed fwy diwyd a llafurus i lanw y cylch hwnw. Claddwyd yn mynwent Llanwnen, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, ac yn yr Eglwys a'r gladdfa gan offeiriad y plwyf.

IONAWR 21, Griffith Griffiths, Henbant uchaf, Llandyssul, yn 20 oed. Claddwyd dydd Iau canlynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Dyma'r pedwerydd aelod sydd wedi dianc o'r teulu hwn o fewn i ychydig bach o amser i'w gilydd—y ffyrdd yn myn'd i'r môr—yr ergydion yn aml. Mae yr ardal yn cydymdeimlo yn fawr a'r tad a'r plant yn eu trallod a'u dagrau. Duw a gadwo ein ffydd yn fyw ac iach hyd nes y deuwn i ddeall ac amgyffred ei ffyrdd yn well, ac a bero fod symudiad ein cyfaill ieuanc yn symbyliad i barotoi a chyfaddasu ein hunain ar gyfer y wlad well. "Yn nhy fy nhad y mae llawer o drigfanau."

IONAWR 25, wedi cystudd byr, yn 18 mis oed, Mary Hannah, anwyl ferch David a Mary Anne Davies, Dolgoch, Llandyssul. Claddwyd yn mynwent Capelybryn; a chyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur gan y gweinidog.

IONAWR 30, hunodd yr hen fam dduwiolfrydig Ann Davies, gweddw y diweddar ffyddlon dad—William Davies. Hunodd dan flodau henaint yn 83 oed. Ni bu neb ffyddlonach na hi yn ystod ei gyrfa faith gyda holl gyflawniadau capel y Graig a Gellionen. Magodd blant ac wyrion defnyddiol iawn er hwylusu tyfiant a phrydferthwch yr achos Undodaidd yn y lle. Yr oedd Mrs. Davies yn nghalon y frawdoliaeth a'r frawdoliaeth yn ei chalon hithau, a'r ardal yr un modd. A phrofwyd hyny ddydd ei hangladd, yr hwn gymerodd le dydd Llun, Chwef. 4ydd. Claddwyd yn mynwent Gellionen. Gwasanaethwyd gan y Parch. W. Alva Richards, yn cael ei gynorthwyo ar lan y bedd gan y Parch. Gower Richards, Gosen, Trebanos. Disgynai yr eira yn drwm tra y canai y dorf ar lan y bedd—

Eira gwyn yn yr hwyr gaf—yn disgyn
Hyd esgyll y gauaf,
Try y bedd ei wedd fel haf
Dialar y duwiolaf.

Yn dy henaint, O! huna—anwyl fam
Gloew fu dy yrfa;
Mwy araul na'r gem eira
Dywyna dydd d'enw da.—*Alva.*

Hiraethlawn yw nawn o hyd,—gad-
Famgu dawel, ddiwyd, [ewais
Yn llywio bai am well bywyd
O lwch bedd i siriolach byd.
—*Banos.*

IONAWR 31, yn 43 oed, Lewis Thomas, Rhoslwyn, Llandyssul, er galar mawr i'w deulu, ei berthynasau, yn nghyd a llu o gyfeillion oeddent wedi dysgu i'w barchu a'i edmygu. Dioddefodd gystudd blin am wythnosau lawer; cafodd bob mantais allai triniaeth feddygol awgrymu, a gofal cariad priod a phlentyn nad oedd yn hepian o ddydd i'w gilydd; ond er pob ymdrech dianc wnaeth o afaelion serch, ac o ganol bywyd ag oedd yn hynod am ei ddefnyddioldeb yn mhob cyfeiriad. Yr oedd yn ddedwydd yn ei gysylltiadau teuluaidd fel yr awgrymwyd, cymerai ddyddordeb neillduol yn ei waith beunyddiol, a chyflawnai yr holl ddyledswyddau cydfynedol ag ef gyda'r gonestrwydd a'r diwydrwydd mwyaf cydwybodol. Dyna ei nodwedd erioed ac felly y bu hyd y diwedd. Cariai yr un brwd-

frydedd i'w dyledswyddau crefyddol. Yr oedd yn ddiacon yn eglwys y Graig yn gystal ag yn arolygwr yr Ysgol Sul, a chwith yw genym weled ei le yn wâg. Yr oedd yn bleser cydweithio ag ef gan mor gydwybodol a thrwyadl oedd gyda phob peth. Yr oedd ei angladd yn dwyn tystiolaeth fod iddo barch cyffredinol. Heddwch i'w lwch, a deuparth ei yspryd a syrthio arnom ni sydd yn aros. Claddwyd yn Mhantdefaid y Mawrth canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu gyda chynorthwy y Parchn. W. Aerwyn Jones (B.), Ceinewydd, a J. Davies, Alltyplacca.

CHWEFROR 5, yn ddau fis oed, Trevor baban Eliza Thomas, Minyffordd, Tylorstown. Y dydd Iau canlynol cludwyd ei gorff bychan gyda'r gerbydres i Landyssul a chladdwyd yn Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. R. Davies, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. E. O. Jenkins.

CHWEFROR 5, Margaret, gweddw y diweddar Jacob Davies, Plasbach, Ffynonoer, Llanfihangel Ystrad, yn 79 mlwydd oed. Claddwyd yn mynwent eglwys Rhydygwin; y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

CHWEFROR 8, Anne Davies, Cefnbryn Terrace, Llanbedr, yn 83 mlwydd oed. Gweddw oedd i'r diweddar Thomas Davies, gof, Llwyn, ger Llanbedr, ac yno y treuliodd hi a'i phriod y rhan fwyaf o'u bywyd priodasol, ac yno y magwyd ganddynt deulu lluosog o blant, y rhai yn nghyd a pherthynasau ereill lawer ydynt heddyw mewn galar dwys am golli un a wnaeth gymaint drostynt. Gweithiodd yn galed drwy ei hoes, ac fu ni neb erioed yn fwy ymdrechgar i wneud ei rhan yn ffyddlon fel mam, a phriod, a hyny gyda phleser a sirioldeb mawr. Bu ei phriod a hithau yn aelodau ffyddlon o eglwys fechan Caeronen am flynyddau lawer, ac wedi hyny o eglwys Brondeifi; a d'wed traddodiad ei bod lawer gwaith wedi cymeryd ei phriod ar ei chefn wrth rydio afon Teifi ar ei ffordd i'r gwasanaeth cyhoeddus yn Nghaeronen, gyda'r amcan i fyrhau'r ffordd. Claddwyd yn mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

CHWEFROR 8, Anna Mary Evilian Davies, King's Head, Llanbedr, yn 14 mlwydd oed. Hi oedd merch a phlentyn ieuengaf Mr. D. T. Davies, Cyfreithiwr, Llanbedr, a'r diweddar Mrs. Davies, ac er nad oedd yr ymadawedig oud ieuanc mewn dyddiau, yr oedd iddi le neillduol gynhes yn mynwes ei holl gydnabod, a hyny ar gyfrif ei hyspryd mwyn, serchog a swynol, ac yr oedd y dref a'r gymydogaeth mewn cydymdeimlad byw â'r perthynasau oll pan ddaeth y newydd am ei marwolaeth. Yr oedd yn un o aelodau mwyaf prydferth Ysgol Sul Brondeifi, ac yn selog tu hwnt dros bob peth cysylltiedig a'r capel. Claddwyd yn medd ei mam yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

CHWEFROR 12, yn 45 oed, bu farw Judith Jenkins, anwyl briod Rees Jenkins, Beilibach, ger Cribyn, ar ol amryw fisoedd o gystudd caled. Ni fu bywyd priodasol y ddau ond byr, ond bu yn un hynod o ddedwydd, yr hyn sydd yn gwneud yr ysgariad i'n cyfaill yn fwy chwerw. Cydymdeimlir ag ef, yn nghyd a'r tair chwaer a brawd, yn fawr yn eu trallod dwys ar ei hol. Bu ein chwaer ymadawedig yn aelod ffyddlon a dichlynaidd iawn er yn ieuanc yn Nghapelygroes, yn Alltyplacca, ac ar ol ei symudiad i Beilibach, yn Cribyn. Dydd Sadwrn canlynol, hebryngwyd yr hyn oedd farwol o honi i gladdfa'r teulu yn Nghapelygroes gan dyrfa luosog iawn. Pregethwyd yn y ty gan weinidog Cribyn, a gweddiwyd wrth y drws ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

CHWEFROR 13, wedi cystudd hir, yn 85 mlwydd oed, Margaret Thomas, Penlanfawr, Llanwenog. Aeth yr ymadawedig at ei chwaer i Lwyndrysni, yn mhlwyf Llanybyther tua

blwyddyn yn ol, ac ni ddychwelodd yn ol i'w hen gartref. Y dydd Llun canlynol claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn mynwent Capel-y-bryn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Davies, gyda chynorthwy caredig y Parch. J. Morris, A.C., Ficer y ddau blwyf.

CHWEFROR 15, bu farw Hannah Davies, Bryngwyn, ger Cribyn, yn 81 oed, ar ol blynyddau lawer o gystudd, yr hwn a ddioddefodd gydag amynedd a sirioldeb mawr. Yr oedd yn aelod o gynulleidfa'r Cribyn er yn ieuanc, a thra y caniataodd nerth a iechyd bu yn ffyddlon iawn. Gadawodd bedair merch (un o'r rhai a weiniodd yn dyner a gofalus arni trwy ei chystudd) ac un mab, a lluaws o berthynasau agos i alaru ar ei hol. Nerth a gaffont i ymgysuro yn eu tristwch. Awd a'i gweddillion i fynwent Dihewyd y Mawrth canlynol, pryd y daeth tyrfa luosog iawn yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Pregethwyd yn y tŷ gan weinidog Cribyn.

MANION AC HANESION.

AGORIAD CAPEL SYCHBANT.—Cynhelir cyfarfodydd agoriadol Capelycwm, ger Sychbant, ar ddyddiau Llun a Mawrth, yr 8fed a'r 9fed o Ebrill. Gwasanaeth am 6 nos Lun; am 10, 2 a 6 dydd Mawrth. Y Parch. E. Ceredig Jones, A.C., Bradford, yw y pregethwr appwyntiedig. Taer erfynia'r eglwys a'r gweinidog am bresenoldeb cynifer ag a allo ddod, o weinidogion ac eraill.—Dros yr Eglwys, John Davies.

CAPELYGROES.—Ar y 1af o Chwefror, cynhaliwyd gwledd de flynyddol yr ysgol yn y lle uchod. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mrs. Ridd, Tynyffordd; Miss Evans, Felinban; a Miss Davies, Cefncoed. Daeth nifer luosog yn nghyd i fwynhau'r danteithion oedd wedi eu darparu, a'r ddedfryd gyffredin oedd eu bod yn ardderchog. Yn yr hwyr cawd cwrdd adloniadol dan lywyddiaeth Mr. Morgan, Moelfre. Elai'r adroddiad yn rhy faith pe'r enwid yr oll fu'n cymeryd rhan yn y cyfarfod. Yr oedd yr adrodd a'r canu yn rhagorol, ac yn dangos ol llafur mawr. Yn ystod y cyfarfod canwyd amryw ddarnau ar y *Gramophone*, dan reolaeth Mr. Foster, Porth. Ar ol talu'r diolchiadau arferol, ymwahanodd pawb wedi eu llwyr foddloni. Hefyd, rhoddwyd amryw Feiblau a llyfrau eraill i'r plant am gadw'r ysgol gan Mr. Rees, Taigwynion. Haedda pawb ddiolch gwresog am eu hymdrechion.—*Un oedd yno.*

ABERDAR.—Ar nos ddiweddaf yr hen flwyddyn (1906) daeth cynulliad mwy lluosog nag arfer i gyfarfod y "Gymdeithas Ymdrechol" perthynol i'r Hen Dy Cwrdd. Ar yr achlysur cadeiriwyd gan y gweinidog ac anrhegwyd cantorion y gynulleidfa—rhyw 90 o honynt—â chopiau newyddion o "Perlau Moliant" gan Mr. a Mrs. Llewelyn, o'r Bwllfa, fel cydnabyddiaeth o'u teimladau cynes o ddiolchgarwch iddynt am eu gwasanaeth ar ddydd priodas eu merch, ac o ddymuniad taer fod y llyfrau'n profi'n gynorthwy iddynt wneuthur canu'r cysegr yn well nag erioed. Cyflwynwyd yr anrhegion gan Mrs. Llewelyn ei hunan gyda gair o ddymuniad da i bob un. Wedi hyny, dros y gynulleidfa, cyflwynodd nifer luosog o wobrwyon i blant yr Ysgol Sul am *attendance*. Cafwyd amryw anerchiadau cynes a

thipyn o ganu swynol, a chyn terfynu gyda "Hen Wlad fy Nhadau," dan arweiniad Mr. John Thomas, actiwyd y *Farce* chwerthinus "Mrs. Brown's Visit to Town" yn arddechog dda gan Myfanwy Lewis a Mattie Evans. Treiniwyd gan y brawd diwyd John Thomas.

DA genym weled yn y *Welsh Review* gyfieithad i'r Saesneg o "Fyfyrdodau Blwyddyn Newydd" gan Wilym Marles. Y cyfieithydd yw'r Parch. E. O. Jones, M.A., Ficer Llanidloes.

PONTYPRIDD.—Ar nos Sul, Ion. 13eg, croesawyd saith o aelodau newydd i gymdeithas yr eglwys. Yr oedd y gwasanaeth drwyddo yn ymwneud a'r amgylchiad. Arwyddair aelodaeth yr eglwys yw dywediad yr arlunydd Watts, "*My utmost for the highest*,"—"Hyd eithaf fy ngallu dros yr uwchaf," a dyna destyn anerchiad y gweinidog ar yr achlysur.

CAPELYFADFA. — Cynhaliodd yr Ysgol Sul uchod ei chyngherdd flynyddol nos Wener, Chwefror 15. Aeth y plant trwy eu gwaith o adrodd a chanu yn fedrus ac yr oedd yno dyrfa fawr o honynt. Yn ystod y cyfarfod gwobrwywyd oddeutu haner cant am ffyddlondeb yn yr ysgol. Cadeiriwyd ar y noson uchod gan Cad. Davies ac arweiniwyd yn ddeheuig gan Mr. T. G. Thomas.

ORIEL COLEG CAERFYRDDIN.—Da genym ddeall fod llyfr newydd y Dr. Pan Jones ar fyfyrwyr Coleg Caerfyrddin yn barod i'r wasg. Bydd yn cynwys, nid yn unig fywgraffiad byr o fyfyrwyr y 19eg canrif, ond darlun hefyd o'r rhan amlaf o honynt. Dylai y gwaith fod o ddyddordeb mawr, yn enwedig i bobl ieuanc Cymru, a gobeithiwn y ca gylchrediad fydd yn ddigon i gyfarfod a holl dreuliau yr awdwr—a rhagor.—R. J. J.

"THE ANCIENT BARDS OF BRITAIN."—Llyfr Seisnig yw hwn gan y Parch. D. Delta Evans, Golygydd y *Christian Life*. Deallwn fod y llyfr wedi costio llafur ugain mlynedd i Mr. Evans, ac y mae'n amlwg ei fod wedi casglu yn nghyd lawer o hen ddefnyddiau dyddorol ac adeiladol. Ymdrinia a'r pwnc braidd o bob cyfeiriad gyda deheurwydd goleu. Gobeithiwn y ca werthiad buan, gan y credwn y bydd ei ddarlleniad yn lles mawr i bobl ieuainc ein gwlad, ac yn enwedig i'r rhai hyny yn ein hysgolion sirol sydd yn awyddus i ychwanegu at eu gwybodaeth am eu gwlad, eu cyff a'u cenedl. Ei bris yw 5s. I'w gael oddiwrth yr awdwr, 5, Fetter Lane, London, W.C.

PWLPUD Y BEIRDD.—Mae'n amlwg fod gwerthiad y gyfrol gyntaf wedi bod yn foddhaol neu ni ymgymerai'r Golygydd (Mr. T. Gwernogle Evans, yn awr o Skewen, Neath), â chyhoeddi Cyfrol 2. Digon tebyg yw'r gyfrol hon i'r un gyntaf, er mai dynion newydd fwyaf sydd yn pregethu ynddi. Yn mhlith y pregethwyr y tro yma ceir enwau rhyw 35, y golygydd ei hun eto yn un o honynt. Gwelwn enwau Esgob Tyddewi yma a Dyfed yn nesaf ato. I ateb ein chwaeth ni fel Undodiaid y mae pregeth Dr. Morris (*Rhosynog*) cystal a dim yn y llyfr. Nid oes dim yn Undodaidd na Thrindodaidd feallai ynddi, ond y mae ynddi y rhywbeth hwnw sydd yn myned yn agos iawn i'r teimlad gyda thuedd i gynyrchu ymdrech yn nghyfeiriad y bywyd gwell. Cawn ddarluniau o'r 35 newydd, ac ar y diwedd y 35 a wnaethant eu hymddangosiad yn y gyfrol gyntaf—*gallery* o ddarluniau fyddant mor ddyddorol i ambell un â'r pregethau eu hunain.

Y GWIR ANRHYDEDDUS LLOYD GEORGE, A.S.—Yr oedd ei dad yn brifathraw yr ysgol ddyddiol mewn cysylltiad a Hope Street Church yn amser gweinidogaeth Dr. Martineau. Cafodd yr ysgrifenydd y ffaith hon oddiwrth Mr. George ei hun pan ar ymweliad a Llandyssul flynyddoedd yn ol yn nghwmni Mr. Wynford Phillips. Bu farw Mr. George, hynaf, pan oedd y mab ond plentyn, ac felly cafodd ei drosglwyddo i ofal ei ewythr, Mr. W. George, masnachwr yn awr yn Criccieth yn gystal a gweinidog ar eglwys fechan y Campbellite Baptists yno. Mae Mr. Lloyd George yn aelod o'r eglwys

hon, yn gystal ag o Eglwys y Bedyddwyr yn Castle St., Llundain.

CHESTER.—Y mae yna dipyn o dwrw lled boeth wedi bod yn y ddinas hon. Y *New Theology*, debygwch? nage, nage. Gwir i Mr. Evans bregethu ar y pwnc hwnw; ond y mae yna ryw James Lyall, *Missioner*, oherwydd i'r Dr. Pierson fethu cyrhaedd o America mewn pryd erbyn Ionawr 27, wedi cael cyfleusdra i anerch rhyw fil o bobl, ac i wneuthur ymosodiad chwerw ar yr Undodiaid. Haerodd eu bod yn dywedyd celwydd cyn ddued, a chyn ddyfned, a chyn fudred a'r diafol ei hun. Nid Crist dynol oedd ganddynt hwy, ebe fe, ond Arglwydd ac Iachawdwr dwyfol. Yr oedd ei waed yn berwi pan yn pasio Capel Matthew Henry, wrth feddwl fod capel un oedd wedi ysgrifenu un o'r esponiadau goreu ar air Duw yn awr yn meddiant yr "Undodiaid yna"!! Yr oedd yn synu na fuasai pobl y ddinas yn ei brynu ac yn ei droi yn "*Red-hot Gospel Mission.*" Dyna engraifft o'r yspryd oedd yn anfon hereticiaid i'r nefoedd mewn cerbyd o dân yn yr amser gynt. Ni fedrant hyny heddyw.

DR. SAMUEL CLARKE.—Yn yr arholiad diweddar yn Llundain mewn cysylltiad ag Eglwys Loegr gofynodd y Prifathraw Fairbairn i R. J. J. a wyddai efe rywbeth am Dr. Samuel Clarke. Atebodd yntau y gwyddai ei fod yn dipyn o heretic, ac y fan yna terfynodd yr ymgom. Ni fuasai niwed pe dywedasai Mr. Jones mai llyfr pregethau o eiddo Clarke oedd yn llaw y Dr. Richard Price, yn grwt ieuanc, yr hyn a barodd i'w dad golli ei dymher, a chymeryd y llyfr o'i law a'i daflu i'r tân! Ni lwyddodd y fath ymddygiad gadw Mr. Price yn uniongred. Nid anyddorol fyddai tipyn o hanes Dr. S. Clarke a Dr. R. Price yn YR YMOFYNYDD. Yr oedd Dr. Price yn Gymro, genedigol yn Ty'nton, ger Penbont-ar-Ogwr. Pan ddarfu i'r Parch. R. J. Jones enwi Theodore Parker ac Emerson, Martineau a Stopford Brooke fel cynrychiolwyr syniadau Undodaidd Cymru yn y dydd presenol, ni theimlai'r Justice V. Willlams fod y cyplysiad yn deg. Aeth i dipyn o drafferth i wneuthur yn hyspys fod Stopford Brooke yn *orthodox*, ond fod llawer o weinidogion yr Undodiaid yn Agnosticiaid. Dywedodd Mr. Jones nad oedd yn cytuno. Gallasai yn burion ychwanegu—ond ni wnaeth—mai anheg iawn oedd i'r *Justice* o'r Gadair, ac yntau yn gosod cymaint pwys ar wybodaeth uniongyrchol—*first-hand*—fyned i faes hollol ddieithr iddo, a thraethu barn mor gwbl groes i'r gwirionedd. Yr oedd yn fwy pwys fod yn *exact* ar bwnc o'r fath na phenderfynu pa un ai 200 neu 202 oedd rhif y seddau yn Alltyplacca. Synai'r Justice Vaughan Williams fod neb yn dysgwyl y byddai offeiriad yn darllen llyfr o waith anghydffurfiwr. Byddai hyny, gallwn feddwl, yn *infra dig*—yn beth islaw i wr mor fawr. 'Rwy'n cofio do'd adref o Lanbedr, ar adeg *Degree Day* yn y Coleg ryw 30 mlynedd fwy neu lai yn ol, pan y dygwyddodd i mi fod mewn *compartment* gyda naw o offeiriaid, a minau—yn heretic yn eu plith. Yr oedd amryw a blodau'r pren almon yn amlwg iawn arnynt; yn mhlith y cyfryw ddysgedigion teimlais mai gweddus oedd i mi fod yn ddystaw. Yn fuan, ac yn naturiol, aeth yr ymddiddan yn nghylch llyfrau—a'r un cwestiwn pwysig oedd—nid a oedd y llyfr yn ddyddorol, yn addysgiadol, neu yn rhyw ystyr yn dda?—ond, "*Is it safe?*" a oedd yn ddiogel!! Byddai ofn arnynt ddarllen llyfr os na fyddai yn *safe*—os na fyddai mewn cydgordiad a'r gyffes a'r gredo. Nid gwybod y gwir oedd yn bwysig.

Y mae Cadeirydd y "Welsh Church Commission" wedi bod yn lwcus hynod. Ar ol gwrthod ystadegau'r capelau Undodaidd gyflwynwyd iddo gan Mr. Jones, Aberdar, am nas gallai roi tystiolaeth bersonol i'w dilysrwydd, bu arno dipyn o helbul a thrafferth cyn cael eu gwell. Fel bu gore'r lwc, erbyn i Mr. James, Llandyssul, fyned i fyny, yr oedd y Dr. Blake Odgers wedi bod mor garedig a rhoi copi o ystadegau'r Ysgolion

Sul iddo, ac y mae y rhai hyny yn myned i wneuthur i fyny am bob diffyg!

MERTHYR TYDFIL.—Pregeth dda oedd hono draddodedd y Parch. D. J. Williams, yn awr o Belper, i'w hen gynulleidfa yn Merthyr. Ei bwnc oedd y *New Theology*. Rhyfedd gymaint o sylw y mae gweinidog ieuanc y City Temple yn gael y dyddiau hyn. Y mae y dduwinyddiaeth, er yn cael ei galw yn newydd, fwyaf o hono mor hen a'r Testament Newydd, mor hen ag Undodiaeth; ac felly yn llawer henach na Thrindodiaeth. Nid oes dim son am Drindod yn y Beibl, dim, o ddechreu Genesis hyd ddiwedd Dadguddiad.

Y CWRDD CHWARTEROL.—Cynhelir yn y Nottais, Morganwg, Mercher ac Iau, Ebrill 10 a 11. Bydd y Parch. Joseph Wood, o Birmingham, yn bresenol fel cynrychiolydd y *National Conference*, a threfnir cynhadledd y prydnawn cyntaf am 5 o'r gloch i roddi derbyniad iddo, yn gystal ag i wrandaw ar bapyr yn trin y cwestiwn — "Cyflenwad y Weinidogaeth." Ceir manylion pellach a rhaglen gyflawn o'r trefniadau yn y Rhifyn nesaf.

CONGL YR AWEN.

AROS.

Pan ddaw'r meddwl, gyfaill cu,
A fydd it', fel blotyn du
Ar dy fywyd; gyr e'n mhell,
Fe ddaw eto amser gwell.—Aros!

Pan y teimli'n dod i'r lan
Eiriau brysiog, meddwl gwan,
Dan ddylanwad nwydau dall,—
Cais ddoethineb, bydd yn gall.—Aros!

Pan ar fyn'd i wneuthur gwaith
Ddwg it' dristwch ar dy daith;
Nes i'r cysgod gilio draw;
Ymdawela, dal dy law.—Aros.

Aros, nes diflano'r nwyd,
Aros, meddwl tyner gwyd,
Aros, nes dêl geiriau mwyn;
Aros, fe ddiflana'th gwyn.—Aros!

MAE'R NEF A'R LLAWR YN UN.

Mae dolen anweledig i lygaid cnawdol dyn,
Yn cydio nef a daear ac yn eu gwneud yn un:
Nid ydyw'r holl fydysawd ond un breswylfa lon
I deulu Duw gartrefu mewn heddwch ger ei fron.

Mae holl wrthddrychau'r cread, a phob creadur byw,
I gyd yn berthynasau,—i gyd yn blant i Dduw:
Er amled yw'r planedau trwy'r holl ffurfafen fry,
Nid oes yr un o honynt yn estron yn y tŷ.

Mae dolen yn cysylltu y ddaear oer ei hun
A'r creaduriaid arni o bob rhyw fath a llun;
A dolen wedi hyny yn cydio dyn â hwy—
Ac nid oes neb all dori y ddolen hono mwy.

Rhwng dyn ac angel hefyd mae dolen ddigon cref
I'w dal yn rhan wastadol o deulu mawr y nef;
A dolen fawr dragwyddol wrth orsedd Duw ei hun,
Sy'n gafael yn y cyfan ac yn eu gwneud yn un.

1906. ROBERT JONES DERFEL.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

CHRISTR, THOMAS, & BROS, Ltd., Bristol.

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

CATALOGUES FREE.

Fresh Vegetable Seeds

Fresh Flower Seeds.

Funeral Wreaths & Designs, Wedding Bouquets.

HARRY COYSH,

Garden Expert & Flower Artist.

NOTT SQ., CARMARTHEN.

CHANNING HOUSE,

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefeld, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

BEN EVANS & COMPY.

Are now making a Grand Display of FURNITURE and FURNISHING MATERIALS.

Artistic Furniture for Halls and Offices.
Artistic Furniture for Drawing and Dining Rooms.
Artistic Furniture for Bedrooms.

FURNITURE REMOVED. ESTIMATES FREE.

BEN EVANS & COMPY.

For the Largest Selection of Brussels, Axminster, Velvet Pile, Tapestry, Turkey and Oriental Carpets, Turkey, Persian, Japanese, Scinde and Turkestan Rugs, Painted Back Oilcloths, Cork Carpets and Inlaid Linoleums. Carpets & Floor Coverings, Made & Laid Free of Charge.

BEN EVANS & COMPY.

Hold a well-assorted Stock of Bedsteads and Bedding, Domestic Ironmongery, Hollow-ware, Brushes & Turnery, Fire Irons, Baths, Lamps, Table Glass, Breakfast, Dinner and Tea Services, together with a Beautiful Selection of Silver and Electro-Plated Goods, suitable for Wedding Presents.

Furniture, Carpets, &c., to the value of £10 and upwards, Carriage Paid to nearest Railway Station.

BEN EVANS & COMPY.

Have always on hand a First Class Stock of Irish Table Linen, Irish, Barnsley and Cotton Sheetings, Embroidered and Hemstitched Sideboard and Tray Cloths, Bedspreads D'oyleys, &c., &c.

Drapery Parcels to the value of 20s. and upwards, Carriage Paid

ILLUSTRATED CATALOGUE POST FREE.

BEN EVANS & CO., LTD. SWANSEA.